

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000
Cwsmeriaid:
e-bost: monaoffshorewindproject@
planninginspectorate.gov.uk

Yr Holl Bartïon â Buddiant, Partïon Statudol
ac unrhyw Unigolyn Arall a wahoddwyd i'r
Cyfarfod Rhagarweiniol

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010137

Dyddiad: 7 Mehefin 2024

Annwyl Syr/ Fadam

**Deddf Cynllunio 2008 – Adrannau 88 ac 89 a Rheolau Cynllunio Seilwaith
(Gweithdrefn Archwilio) 2010 – Rheolau 4, 6 a 9 a 13**

**Cais gan Mona Offshore Wind Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd
Datblygu ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona**

**Penodi'r Awdurdod Archwilio, gwahoddiad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol,
Amserlen ddrafft yr Archwiliad, Penderfyniadau Gweithdrefnol a hysbysiad o
wrandawiadau**

Fy enw i yw Caroline Jones ac fe'm penodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn
aelod arweiniol yr Awdurdod Archwilio (ExA) i gynnal Archwiliad o'r cais uchod.
Aelodau eraill yr ExA yw Andrew Harwood, Graham Hobbins, Jessica Powis a Jason
Rowlands. Gellir gweld copi o'r hybysiad penodi [yma](#).

Mae'r cais yn cynnwys adeiladu gorsaf gynhyrchu tyrbinau gwynt alltraeth yng
Nghymru y byddai ganddi gapasiti i gynhyrchu mwy na 350 megawat ac sydd felly'n
Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2008.

Rydym ar gam cyn-archwilio'r cais. Mae hyn yn golygu ein bod wedi derbyn y cais ac
yn paratoi i'w archwilio. Hoffem ddiolch i'r rhai ohonoch a gyflwynodd Sylwadau
Perthnasol. Mae'r sylwadau hyn wedi ein cynorthwyo wrth ystyried sut byddwn yn
archwilio'r cais hwn.

Y Cyfarfod Rhagarweiniol

Fe'ch gwahoddir i'r Cyfarfod Rhagarweiniol ar **ddydd Mawrth 16 Gorffennaf 2024**. Rhoddir hysbysiad o amser a lleoliad y cyfarfod, yr agenda ddrafft yn ogystal â chyfarwyddiadau ar sut i arsylwi a/neu gymryd rhan yn **Atodiad A**.

Diben y Cyfarfod Rhagarweiniol yw galluogi pobl i roi safbwyntiau i ni ynglŷn â **sut y dylid archwilio'r cais**. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y broses Archwilio, a amlinellir yn **Atodiad B**, ac Amserlen ddrafft yr Archwiliad, sydd wedi'i hamlinellu yn **Atodiad D**. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn [Nodyn Cyngor 8.3](#).

Nid yw'r Cyfarfod Rhagarweiniol yn gyfle i chi roi eich safbwyntiau ynglŷn â'r hyn rydych yn ei hoffi neu ddim yn ei hoffi am y cais. Bydd rhinweddau neu anfanteision y cais yn cael eu hystyried pan fydd yr Archwiliad yn dechrau yn unig, sef ar ôl i'r Cyfarfod Rhagarweiniol orffen.

Nid oes rhaid i chi fynychu'r Cyfarfod Rhagarweiniol er mwyn cymryd rhan yn yr Archwiliad. P'un a fyddwch yn mynychu ai peidio, os ydych yn Barti â Buddiant gallwch wneud cyflwyniadau ysgrifenedig yn ystod yr Archwiliad a chymryd rhan mewn gwrandawiadau.

Bydd Amserlen derfynol yr Archwiliad yn cael ei chyhoeddi ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol.

Cyflwyniadau ysgrifenedig ynglŷn â sut y dylid archwilio'r cais

Rydym bellach yn gofyn am gyflwyniadau ysgrifenedig ynglŷn â sut y dylid archwilio'r cais. Dymunwn glywed gennych yn arbennig os ydych o'r farn bod angen gwneud newidiadau i Amserlen ddrafft yr Archwiliad a amlinellir yn **Atodiad D**. Dylech gyflwyno eich sylwadau trwy [anfon neges e-bost at fewnflwch y prosiect](#) ar y **Dyddiad Cau Gweithdrefnol (Dydd Mawrth 25 Mehefin 2024)** neu cyn hynny. Mae **Atodiad H** i'r llythyr hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am gyflwyno erbyn dyddiadau cau'r archwiliad.

Hysbysiad o wrandawiadau cychwynnol

Er mwyn gallu archwilio'r materion yn gynnar, rydym wedi gwneud Penderfyniad Gweithdrefnol i gynnal y gwrandawiadau cychwynnol canlynol:

- Gwrandawriad Mater Penodol 1 (ISH1) ddydd Mawrth 16 Gorffennaf (prynhawn) ar Gwmpas y Datblygiad.
- Gwrandawriad Mater Penodol 2 (ISH2) ddydd Mercher 17 Gorffennaf a dydd Iau 18 Gorffennaf ar Faterion Amgylcheddol ar y Tir ac ar y Môr a'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft.
- Gwrandawriad Llawr Agored 1 (OFH1) ddydd Gwener 19 Gorffennaf 2024 (bore)



Rhoddir hysbysiad o amser a lleoliad y gwrandawiadau hyn a chyfarwyddiadau ar sut i arsylwi'r gwrandawiadau a gwneud cais i siarad yn **Atodiad E**. Cyhoeddir yr agendâu o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawiad.

Fformat y Cyfarfod Rhagarweiniol a'r gwrandawiadau

Bydd yr Archwiliad yn broses ysgrifenedig yn bennaf a ategir gan wrandawiadau, fel yr amlinellir yn **Atodiad B**. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn [Nodiadau Cyngor 8.4, 8.5](#) ac [8.6](#). Rydym wedi penderfynu y bydd y Cyfarfod Rhagarweiniol a'r gwrandawiadau cychwynnol yn ddigwyddiadau cyfunol lle y bydd rhai pobl yn bresennol yn y lleoliad a bydd rhai'n mynychu gan ddefnyddio Microsoft Teams. Mae'r ddwy ffordd o fynychu yr un mor ddilys â'i gilydd.

Penderfyniadau Gweithdrefnol eraill a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio

Rydym wedi gwneud nifer o Benderfyniadau Gweithdrefnol eraill, y mae rhai ohonynt yn golygu bod angen gwneud cyflwyniadau erbyn y Dyddiad Cau Gweithdrefnol (Dydd Mawrth 25 Mehefin 2024). Tynnwn sylw'n arbennig at y gofynion a osodir ar yr Ymgeisydd yn hyn o beth. Amlinellir y Penderfyniadau Gweithdrefnol yn llawn yn **Atodiad F**.

Adroddiadau ar yr Effaith Leol a Sylwadau Ysgrifenedig

Er mwyn dechrau'r Archwiliad yn ddwys a gwneud y mwyaf o'r amser sydd ar gael, mae Amserlen ddrafft yr Archwiliad yn **Atodiad C** yn gofyn am sawl cyflwyniad allweddol erbyn Dyddiad Cau 1, gan gynnwys Adroddiadau ar yr Effaith Leol a Sylwadau Ysgrifenedig. I fodloni'r dyddiad cau hwn, bydd angen i'r partïon wneud cynnydd sylweddol arnynt **cyn** y Cyfarfod Rhagarweiniol.

Newidiadau i fuddiannau tir

Os oes newid i berchnogaeth neu fuddiant newydd mewn tir yr effeithir arno, mae'n rhaid i'r Ymgeisydd roi gwybod i bobl am eu hawl i ofyn am gael dod yn Barti â Buddiant. Mae hyn yn cynnwys unigolion categori 3 newydd. Dylai'r Ymgeisydd gadarnhau bod unigolion perthnasol wedi cael gwybod am eu hawliau mewn diweddariad i'r Llyfr Cyfeirio.

Eich statws yn yr Archwiliad

Rydych wedi derbyn y llythyr hwn oherwydd eich bod yn perthyn i un o'r grwpiau a ddisgrifir yn nogfen yr Arolygiaeth Gynllunio [Beth yw fy Statws yn yr Archwiliad?](#) Os yw'ch rhif cyfeirnod yn dechrau gydag 'MNOW', 'MNOW-20', 'MNOW-AFP', 'MNOW-S57' 'MNOW-APP', rydych yng Ngrŵp A. Os yw'ch rhif cyfeirnod yn dechrau gydag 'MNOW-SP', rydych yng Ngrŵp B. Os yw'ch rhif cyfeirnod yn dechrau gydag 'MNOW-OP', rydych yng Ngrŵp C. Esbonnir ystyr a diben y grwpiau hynny yn y ddogfen. Cysylltwch â Thîm yr Achos os ydych yn parhau i fod yn ansicr ynglŷn â'ch statws ar ôl darllen y ddogfen.



Dyfarnu costau

Fel arfer, disgwylir i'r holl bartïon dalu eu costau eu hunain. Ceir dyfarnu costau yn erbyn parti sydd wedi ymddwyn yn afresymol, gan felly achosi i'r parti sy'n gwneud cais am ddyfarnu costau fynd i draul ddiangen neu wastraff yn ystod yr Archwiliad. Cyfeiriwch at: [Dyfarnu costau: archwilio ceisiadau am orchymynion caniatâd datblygu](#).

Y Gymraeg

Croesawn gyfraniadau yn Gymraeg yn ystod yr Archwiliad. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael yn y Cyfarfod Rhagarweiniol, ac mewn unrhyw wrandawiadau a gynhelir, i ganiatáu i'r rhai sy'n bresennol gyfrannu yn Gymraeg, os ydynt yn dymuno.

Gohebiaeth yr Archwiliad a rheoli gwybodaeth

O ystyried faint o lythyrau y disgwylir iddynt gael eu hanfon, bwriadwn gyfathrebu trwy e-bost gan fod hyn yn fwy ecogyfeillgar a chost-effeithiol i'r trethdalwr. Rhowch wybod i Dîm yr Achos os ydych wedi cael llythyr trwy'r post ond rydych yn gallu derbyn gwybodaeth trwy e-bost.

Cyhoeddir dogfennau'r Archwiliad ar [tudalen we'r prosiect](#). Edrychwch ar [tudalen we'r prosiect](#) os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, oherwydd caiff ei defnyddio i gyfathrebu â chi ac i ddarparu mynediad at ddogfennau. Gellir gweld dogfennau'r Archwiliad yn electronig hefyd yn y lleoliadau a restrir yn **Atodiad G**.

Mae'r swyddogaeth 'Diweddariadau e-bost' ar ochr dde [tudalen we'r prosiect](#) yn rhoi cyfle i chi gael diweddariadau e-bost ar adegau allweddol yn ystod yr Archwiliad.

Er mwyn hwyluso Archwiliad effeithiol a theg, bydd angen cyhoeddi rhywfaint o wybodaeth bersonol. Darllenwch ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) i gael gwybod sut byddwn yn trin y wybodaeth hon.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r holl bartïon yn ystod yr Archwiliad.

Yn gywir,

Caroline Jones

Aelod Arweiniol yr Awdurdod Archwilio

Atodiadau

- A** Agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol
- B** Cyflwyniad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol
- C** Aseiad Cychwynnol o'r Prif Faterion
- D** Amserlen Ddrafft yr Archwiliad
- E** Hysbysiad o Wrandawiadau Cychwynnol



- F** Penderfyniadau Gweithdrefnol eraill a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio
- G** Argaeledd Dogfennau'r Archwiliad
- H** Gwybodaeth am gyflwyno erbyn dyddiadau cau'r Archwiliad

Nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.
Darllenwch ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.

Agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol

Mae'n rhaid i chi gofrestru trwy [anfon neges e-bost at fewnflwch y prosiect](#) erbyn dydd Mawrth 25 Mehefin 2024 os ydych yn bwriadu cymryd rhan yn y Cyfarfod Rhagarweiniol a darparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani (gweler isod).

Os hoffech arsylwi'r Cyfarfod Rhagarweiniol yn unig, nid oes angen i chi gofrestru oherwydd gallwch naill ai:

1. wylïo ffrwd fyw o'r digwyddiad – bydd dolen i'r ffrwd fyw ar gael ar [dudalen we'r prosiect](#) yn fuan cyn y trefnwyd i'r digwyddiad ddechrau; a/neu
2. wylïo'r recordiad o'r digwyddiad a gyhoeddir ar dudalen we'r prosiect yn fuan ar ôl i'r digwyddiad orffen.

Fel arall, gallwch fynychu'r digwyddiad yn y lleoliad i arsylwi'r trafodion; fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod digon o seddau ar gael yn y lleoliad, gofynnwn i chi gofrestru eich presenoldeb i **arsylwi yn unig** erbyn **dydd Mawrth 25 Mehefin 2024** trwy [anfon neges e-bost at fewnflwch y prosiect](#). Sylwch efallai na fydd modd i chi gymryd rhan ar y diwrnod os nad ydych wedi cofrestru eich dymuniad i siarad erbyn **dydd Mawrth 25 Mehefin 2024**.

Dyddiad: Dydd Mawrth 16 Gorffennaf 2024

Proses Gofrestru: 09:30am

Amser dechrau'r cyfarfod: 10.00am

Lleoliad: Digwyddiad cyfunol yn Venue Cymru, y Promenâd, Llandudno, LL30 1BB ac yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams
Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu darparu o flaen llaw i'r rhai sydd wedi cofrestru eisoes.

Mynychwyr: Partïon a wahoddwyd sydd wedi cofrestru eisoes

Agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol	
09:30	Cofrestru a seddau ar gael yn y lleoliad ar gyfer y rhai sy'n mynychu wyneb yn wyneb
09:30	Proses Gofrestru Rithwir Cyrhaeddwch erbyn 09:30 i fynd i'r cyntedd rhithwir. Oddi yno, bydd Tîm yr Achos yn eich derbyn i'r cyfarfod rhithwir, yn eich cyfarch ac yn rhoi cyfarwyddiadau ychwanegol i chi.

10.00am Eitem 1	Y Cyfarfod Rhagarweiniol Bydd y Cyfarfod Rhagarweiniol yn agor yn ffurfiol am 10.00am . Bydd yr Awdurdod Archwilio yn ymuno, yn croesawu'r cyfranogwyr ac yn arwain y cyflwyniadau.
Eitem 2	Sylwadau'r Awdurdod Archwilio ar y broses Archwilio – Atodiad B y llythyr hwn
Eitem 3	Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion – Atodiad C y llythyr hwn
Eitem 4	Penderfyniadau Gweithdrefnol a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio – Atodiad F y llythyr hwn
Eitem 5	Amserlen Ddrafft yr Archwiliad (gan gynnwys gwrandawiadau ac Archwiliad(au) Safle gyda Chwmni – Atodiad D i'r llythyr hwn
Eitem 6	Unrhyw faterion eraill
Diwedd y Cyfarfod Rhagarweiniol	

Os ydych yn cymryd rhan gan ddefnyddio Microsoft Teams, ymunwch â'r cyntedd rhithwir yn brydlon gan ddefnyddio'r cyfarwyddiadau a anfonir atoch. Bydd y digwyddiad yn dechrau am **10.00am** ni waeth os bydd pobl yn cyrraedd yn hwyr, ac mae'n bosibl na fydd modd iddynt gael mynediad o ganlyniad.

Fe allai gymryd peth amser i dderbyn cyfranogwyr o'r cyntedd rhithwir, felly gwerthfawrogir eich amynedd tra byddwch yn aros.

Fe allai'r agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol newid yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Archwilio (ExA). Fodd bynnag, wrth wneud newidiadau, bydd yr ExA yn ystyriol o'r angen i ddarparu cyfleoedd i'r holl Bartïon â Buddiant gymryd rhan yn deg.

Mae'n **rhaidd** i unrhyw gais i gymryd rhan yn y Cyfarfod Rhagarweiniol **gynnwys** y wybodaeth ganlynol a [anfonir trwy neges e-bost at fewnflwch y prosiect](#).

- Enw a rhif cyfeirnod unigryw (sydd ar frig eich llythyr neu'ch neges e-bost gan yr Arolygiaeth Gynllunio);
- cyfeiriad e-bost (os yw ar gael) a rhif ffôn cyswllt;
- enw a rhif cyfeirnod unigryw unrhyw unigolyn/sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli (os yw'n berthnasol);
- cadarnhad ynghylch p'un a fyddwch yn cymryd rhan yn rhithwir neu wyneb yn wyneb; a'r
- eitem ar yr agenda rydych yn dymuno siarad amdani a rhestr o'r pwyntiau yr hoffech eu gwneud.

Cyflwyniad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol

Cefndir

Bydd y Cyfarfod Rhagarweiniol yn ddigwyddiad cyfunol. Bydd rhai cyfranogwyr yn mynychu wyneb yn wyneb a bydd rhai'n cymryd rhan yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams.

Mae'r Awdurdod Archwilio (ExA) yn ymwybodol o flinder fideogynadledda a bydd yn ceisio cadw'r trafodion yn benodol ac mor effeithlon â phosibl. Mae'r Atodiad hwn yn rhoi mynediad o flaen llaw at wybodaeth a fyddai'n cael ei chynnwys yn sylwadau cyflwyniadol yr ExA, fel arfer. Darllenwch y wybodaeth yn ofalus. Bydd yr ExA yn cyflwyno crynodeb yn unig o'r pwyntiau allweddol a amlinellir yma er mwyn sicrhau y gwneir y mwyaf o'r amser sydd ar gael i gyfranogwyr siarad.

Yr Awdurdod Archwilio a Thîm yr Achos

Bydd aelodau'r ExA, sef Caroline Jones, Andrew Harwood, Graham Hobbins, Jessica Powis a Jason Rowlands, yn cyflwyno eu hunain ar ddechrau'r Cyfarfod Rhagarweiniol.

Bydd yr ExA yn cael ei gefnogi gan Dîm Achos yr Arolygiaeth Gynllunio. Jake Stephens yw'r Rheolwr Achos. Bydd aelodau o Dîm yr Achos ar gael i ateb cwestiynau trwy e-bost cyn ac ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol ac wyneb yn wyneb yn y Cyfarfod Rhagarweiniol. Y cyfeiriad e-bost cyswllt yw: monaoffshorewindproject@planninginspectorate.gov.uk

Diben y Cyfarfod Rhagarweiniol

Mae'r Cyfarfod Rhagarweiniol yn cael ei gynnal i drafod y trefniadau ar gyfer yr Archwiliad o'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona, sy'n Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP), ac y cyfeirir ati'n gyffredinol yn y Cyfarfod Rhagarweiniol a'r Archwiliad fel y 'Datblygiad Arfaethedig'. Mae'r cais wedi cael ei wneud gan Mona Offshore Wind Limited, y cyfeirir ato fel 'yr Ymgeisydd'.

Gallwch weld gwybodaeth am y cais a, maes o law, dogfennau a gynhyrchwyd ar gyfer yr Archwiliad ar dudalen we'r prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ([tudalen we'r prosiect](#)). Mae tudalen we'r prosiect yn cynnwys dolenni i Amserlen yr Archwiliad, Sylwadau Perthnasol a dogfennau'r Archwiliad a gweithdrefn yr Archwiliad.

Fe'ch anogir i edrych ar [dudalen we'r prosiect](#) os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, oherwydd caiff ei defnyddio i gyfathrebu â chi a darparu mynediad at ddogfennau drwy gydol yr Archwiliad.

Prif ddiben y Cyfarfod Rhagarweiniol yw trafod y trefniadau ar gyfer yr Archwiliad o'r cais. Mae'n canolbwyntio ar y broses yn unig, ac ni fydd yn edrych ar sylwedd y cynigion: mae cwestiynau, trafodaethau a sylwadau ynglŷn â rhinweddau neu

anfanteision y Datblygiad Arfaethedig ar gyfer yr Archwiliad ei hun a fydd yn dechrau'r diwrnod ar ôl i'r Cyfarfod Rhagarweiniol orffen.

Y Cyfarfod Rhagarweiniol fydd eich cyfle i ddylanwadu ar y broses y mae'r ExA yn bwriadu ei dilyn. Mae'r agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol wedi'i hatodi i'r llythyr Rheol 6 hwn yn **Atodiad A**. Mae'n bwysig cadw'r llythyr a'r agenda o'ch blaen a chyfeirio atynt yn ystod y Cyfarfod Rhagarweiniol. Fe allech ddymuno eu hargraffu cyn y Cyfarfod Rhagarweiniol er mwyn cyfeirio atynt.

Canllawiau a pholisïau'r llywodraeth

Mae'r cais yn NSIP o dan Ddeddf Cynllunio 2008, gan ei fod yn gais ar gyfer adeiladu gorsaf gynhyrchu tyrbinau gwynt alltraeth yng Nghymru a fyddai'n gallu cynhyrchu mwy na 350 megawat ac sydd felly'n dod o fewn cwmpas adran 15 Deddf Cynllunio 2008, gan gynnwys adran 15 (3B).

Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) dynodedig ar gyfer Seilwaith Ynni (yn benodol yr NPS Trosfwaol ar gyfer Ynni (EN-1), Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3) a Seilwaith Rhwydwaith Trydan (EN-5)), dynodi 17 Ionawr 2024, yn berthnasol i'r Archwiliad hwn ac i benderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r cais hwn.

Bydd yr ExA yn ystyried y Datblygiad Arfaethedig yn unol â'r NPSau ac unrhyw bolisi neu ystyriaethau eraill cymwys sy'n bwysig ac yn berthnasol ym marn yr ExA. Mae Deddf Cynllunio 2008 yn egluro, pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol (SoS) perthnasol yn gwneud penderfyniad, "*rhaid [iddo] benderfynu ar y cais yn unol ag unrhyw NPS perthnasol*" (a104(3)), yn ddarostyngedig i amodau penodol. Yn y bôn, yr amodau yw bod rhaid i'r cais beidio â thorri rhwymedigaethau cyfreithiol na chytuniadau, ac na fyddai unrhyw un o effeithiau niweidiol y Datblygiad Arfaethedig yn drech na'i fuddion.

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol yr hawl i ddiystyru unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â rhinweddau'r NPSau dynodedig. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na fydd yr ExA yn treulio amser yn archwilio sylwadau sy'n herio'r polisi a amlinellir mewn NPSau, neu ddilysrwydd NPSau eu hunain. Canolbwyntir ar rinweddau neu anfanteision y Datblygiad Arfaethedig, a brofir i'r graddau priodol gan ddefnyddio'r profion a amlinellir mewn NPSau dynodedig perthnasol sydd mewn grym.

Mae polisïau cynllunio pwysig a pherthnasol eraill y gallai'r ExA eu hystyried yn cynnwys polisïau yng nghynlluniau datblygu'r awdurdodau lleol perthnasol. Fodd bynnag, os bydd y rhain yn gwrthdaro â pholisi mewn NPS, rhoddir blaenoriaeth i'r NPS.

I grynhoi, bydd y Cyfarfod Rhagarweiniol yn sefydlu'r gweithdrefnau a'r amserlen ar gyfer yr Archwiliad o'r Datblygiad Arfaethedig. Bydd yn gosod fframwaith i'r ExA alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ystyried y cais a phenderfynu arno. Wrth wneud hynny, bydd yr ExA yn ystyried:

- safbwyntiau a sylwadau'r holl Bartïon â Buddiant (IPau);
- unrhyw Adroddiadau ar yr Effaith Leol (LIR) a baratowyd ac a ddarparwyd gan awdurdodau lleol perthnasol;

- materion eraill rhagnodedig; ac
- unrhyw faterion eraill sy'n ymddangos yn berthnasol ac yn bwysig i benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol.

Y rhai a wahoddir i'r Cyfarfod Rhagarweiniol

Gwahoddir yr Ymgeisydd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol ac, yn gyffredinol, rhoddir cyfle iddo ymateb i unrhyw sylwadau a wnaed.

Mae pawb sydd wedi gwneud Sylw Perthnasol dilys wedi cael ei gofrestru fel Parti â Buddiant (IP) ac wedi cael gwahoddiad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol. Mae gan bob IP yr hawl i gymryd rhan yn yr Archwiliad.

Mae pob unigolyn neu sefydliad sydd â buddiant mewn tir neu hawliau yr effeithir arnynt gan gais Caffael Gorfodol yn y cais hwn yn Unigolyn yr Effeithir Arno (AP) ac wedi cael gwahoddiad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol. Yn ogystal â hawl gyffredinol i gymryd rhan yn yr Archwiliad, mae gan APau yr hawl i gael eu clywed yn gysylltiedig ag unrhyw wrthwynebiad ynglŷn ag effeithiau Caffael Gorfodol ar eu buddiannau mewn tir, a'r hawl i gael gwybod am unrhyw Wrandawriad Caffael Gorfodol. Mae pob AP yn IP, p'un a ydynt wedi gwneud Sylw Perthnasol dilys ai peidio.

Mae cyrff penodol yn Bartïon Statudol ac maen nhw wedi cael gwahoddiad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol. Gall Partïon Statudol ddewis dod yn IP heb fod wedi gwneud Sylw Perthnasol dilys trwy roi gwybod i'r ExA yn ysgrifenedig.

Mae gan yr ExA y pŵer i gynnwys pobl nad ydynt yn IPau yn yr Archwiliad fel petaent yn IPau, gan gynnwys trwy eu gwahodd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol. Fodd bynnag, gwneir hyn mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, er enghraifft os yw'n amlwg y byddai'r cais yn cael effaith berthnasol ar unigolyn, nid yw'r unigolyn hwnnw'n IP yn awtomatig neu'n gymwys i ddewis dod yn IP ac nid oedd wedi gallu cymryd y camau angenrheidiol i gofrestru fel IP.

Mae'r ExA wedi gwahodd y cyrff canlynol i'r Cyfarfod Rhagarweiniol fel Unigolion Eraill:

- Gweriniaeth Iwerddon
- Gwlad Belg
- Natural England
- NatureScot
- Yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (Gogledd Iwerddon)
- National Farmers' Union
- Isle of Man Steam Packet Company

Cynnal y Cyfarfod Rhagarweiniol

Mae profiad blaenorol yn awgrymu y gallai gymryd rhai oriau i gynnal Cyfarfod Rhagarweiniol ar gyfer prosiect o'r maint a'r cymhlethdod hwn. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod y digwyddiad yn cael ei gynnal yn rhannol rithwir yn cyfyngu ar nifer y bobl

sy'n gallu siarad ar un adeg. Yn ystod y Cyfarfod Rhagarweiniol, efallai y bydd rhaid i gyfranogwyr fod yn ystyriol ac yn amyneddgar os oes oedi yn gysylltiedig â'r dechnoleg a ddefnyddir. Gan gydnabod y blinder sy'n gysylltiedig â chyfathrebu ar y sgrin, bydd yr ExA yn darparu egwylliau yn ystod y Cyfarfod Rhagarweiniol, fel y bo'n briodol. Os ydych wedi cofrestru o flaen llaw i gymryd rhan, bydd eich cyfarwyddiadau ymuno yn rhoi mwy o wybodaeth ynglŷn â hyn.

Bydd recordiad digidol o'r Cyfarfod Rhagarweiniol ar gael ar dudalen we'r prosiect cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Cyfarfod Rhagarweiniol orffen. Mae'r recordiad yn caniatáu i unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd â diddordeb yn y cais a'r Archwiliad gael gwybod beth a drafodwyd yn y Cyfarfod Rhagarweiniol. Mae gwneud a chyhoeddi'r recordiadau hyn yn fodd i'r ExA fodloni'r gofyniad cyfreithiol i gynnal y Cyfarfod Rhagarweiniol (ac unrhyw wrandawiadau eraill) yn gyhoeddus. Yn hyn o beth, **bydd angen i unrhyw un sy'n siarad yn y Cyfarfod Rhagarweiniol gyflwyno ei hun bob tro y bydd yn siarad**, er mwyn sicrhau bod rhywun sy'n gwrandao ar y recordiad ar ôl y digwyddiad yn gwybod pwy sy'n siarad. Bydd nodyn ysgrifenedig o'r Cyfarfod Rhagarweiniol yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Cyfarfod Rhagarweiniol orffen.

Gan fod y recordiadau'n cael eu cadw a'u cyhoeddi, maen nhw'n gofnod cyhoeddus sy'n gallu cynnwys gwybodaeth bersonol y mae Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig (GDPR y DU) yn berthnasol iddi. Mae'n rhaid i gyfranogwyr wneud eu gorau i osgoi darparu unrhyw wybodaeth y dylid ei chadw'n breifat ac yn gyfrinachol, fel arall. Os oes angen cyfeirio at wybodaeth o'r fath, fe ddylai fod ar ffurf ysgrifenedig. Er y bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi hefyd, gellir cuddio neu ddileu cynnwys personol a phreifat cyn iddi fod ar gael yn gyhoeddus. Dylai unrhyw un sy'n ansicr ynglŷn â'r pwynt hwn ofyn i Dîm yr Achos am arweiniad cyn cyflwyno gwybodaeth bersonol a phreifat yn gyhoeddus.

Mae'n arferol i'r Arolygiaeth Gynllunio gyhoeddi'r recordiadau a'u cadw am gyfnod o bum mlynedd o benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar y DCO. Os byddwch yn cymryd rhan yn weithredol yn y Cyfarfod Rhagarweiniol, mae'n bwysig i chi ddeall y byddwch yn cael eich recordio ac y bydd y recordiad ar gael i'r cyhoedd. Gweler ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) i gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn trin eich data.

Yn dilyn cyflwyniadau'r ExA, gofynnir i bob cyfranogwr sydd wedi cofrestru i siarad gyflwyno ei hun, gan gynnwys unrhyw sefydliadau neu grwpiau y mae'n eu cynrychioli. Yna, bydd yr ExA yn cynnal y cyfarfod yn unol â'r agenda. Os nad ydych eisiau i ddelwedd ohonoch gael eich recordio, gallwch ddiffodd eich camera unrhyw bryd neu, os ydych yn bresennol yn y lleoliad, siaradwch ag aelod o Dîm yr Achos.

Proses yr Archwiliad

Mae Archwiliad NSIP yn dilyn prosesau gwahanol i'r rhai hynny ar gyfer, er enghraifft, Ymchwiliad Cyhoeddus i apêl gynllunio yn dilyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio. Y prif wahaniaethau yw bod Archwiliad NSIP yn broses ysgrifenedig, yn bennaf, ac mae gwrandawiadau'n defnyddio ymagwedd holgar yn hytrach na gwrthwynebol.

Mae hyn yn golygu y bydd yr ExA yn archwilio, profi ac asesu'r dystiolaeth gan ddefnyddio cwestiynau ysgrifenedig yn bennaf. Er y bydd rhai gwrandawiadau'n cael eu cynnal i ddarparu tystiolaeth ategol, bydd cwestiynau i'r Ymgeisydd neu dystion yn dod o'r ExA. Ni chaniateir holi neu groesholi tystion gan bartïon eraill yn gyffredinol.

O ran cyfleoedd i ddarparu tystiolaeth yn ysgrifenedig, mae Amserlen ddrafft yr Archwiliad yn darparu ar gyfer y prosesau ysgrifenedig canlynol:

- Gall awdurdodau lleol gyflwyno LIRau, os dymunant. Er bod y rhain yn wirfoddol, mae Deddf Cynllunio 2008 yn datgan os cânt eu darparu, bod rhaid iddynt gael eu hystyried gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth wneud penderfyniad. O ganlyniad, mae LIRau yn ddull pwysig iawn i awdurdodau lleol gyfleu materion sy'n achos pryder i'r ExA, yr Ysgrifennydd Gwladol a'u preswylwyr.
- Gall IPau wneud Sylwadau Ysgrifenedig (WRau) a gwneud sylwadau ar WRau a wnaed gan bartïon eraill.
- Gall IPau ymateb i gwestiynau ysgrifenedig yr ExA (ExQau) a gwneud sylwadau ar ymatebion i'r cwestiynau ysgrifenedig hyn a ddarparwyd gan eraill.
- Efallai y gofynnir i IPau gyfrannu at wneud Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) os yw'n ymddangos bod materion y maen nhw a'r Ymgeisydd yn cytuno arnynt, ac os byddai'n ddefnyddiol i hyn gael ei egluro. Mae SoCGau yn fwyaf defnyddiol i gofnodi materion na chytunir arnynt neu sy'n weddill.

Mae Amserlen ddrafft yr Archwiliad yn cynnwys cyfres o Ddyddiadau Cau wedi'u rhifo ar gyfer derbyn cyflwyniadau ysgrifenedig. Bydd cyflwyniadau amserol sy'n cyrraedd erbyn y Dyddiad Cau perthnasol ac sy'n mynd i'r afael â'i ddiben yn cael eu derbyn. **Bydd dogfennau sy'n cyrraedd ar ôl y Dyddiad Cau perthnasol yn cael eu derbyn yn ôl disgrisiwn yr ExA yn unig ac mae'n bosibl na fyddant yn cael eu derbyn er mwyn sicrhau tegwch i'r holl bartïon.** Gall amgylchiadau lle mae dogfennau'n cael eu cyflwyno'n hwyr heb reswm da, gan achosi anghyfleustra neu oedi i bartïon eraill, fod yn gyfystyr ag ymddygiad afresymol.

Y prosesau ysgrifenedig hyn fydd y prif fodd a ddefnyddir gan yr ExA i gasglu gwybodaeth, tystiolaeth a safbwyntiau ynglŷn â'r cais. Fodd bynnag, bydd yr Archwiliad yn effeithiol dim ond os yw'r partïon yn rhoi atebion amserol, llawn, didwyll, clir ac wedi'u hategu gan dystiolaeth i bob cwestiwn sy'n berthnasol i'w buddiannau, ac yn ymgysylltu'n llawn ag unrhyw brosesau eraill cysylltiedig fel cwblhau WRau a SoCGau.

Mae dal gwybodaeth yn ôl neu ei hoedi, neu fethu cydweithredu yn ddi-fudd, ac os bydd hynny'n digwydd, fe allai unrhyw ymddygiad afresymol a achosodd i barti arall fynd i wariant gwastraff arwain at ddyfarnu costau yn erbyn y parti tramgwyddus.

Mae gan yr ExA ddisgrisiwn i ddiwygio Amserlen yr Archwiliad er budd ehangach yr Archwiliad. Os oes modd, bydd digwyddiadau'n cael eu trefnu ar gyfer adegau pan fydd yr holl bartïon perthnasol ar gael, ond mae gan yr ExA ddyletswydd i gwblhau'r Archwiliad erbyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau'r diwrnod ar ôl i'r

Cyfarfod Rhagarweiniol orffen. Mae'r gofyniad hwn wedi'i osod gan ddeddfwriaeth, ac er y bydd yr ExA yn ceisio aildrefnu dyddiadau digwyddiadau er cyfleustra'r holl bartïon perthnasol, ni fydd llawer o le i newid dyddiadau a nodir yn Amserlen ddrafft yr Archwiliad.

Mae'r terfyn amser statudol ar gyfer yr Archwiliad yn golygu pan fydd materion y mae angen eu trafod a'u cytuno rhwng yr Ymgeisydd ac IPau o hyd, bydd yn ddefnyddiol iawn i'r ExA os gallai'r rhain gael eu symud ymlaen cyn gynted â phosibl.

Gwrandawïadau

Mae Amserlen ddrafft yr Archwiliad yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwrandawïadau, lle y bydd yr ExA yn derbyn tystiolaeth lafar gan y partïon amrywiol.

Caiff unrhyw IP cofrestredig ofyn am **Wrandawïad Llawn Agored (OFH)** i wneud sylwadau llafar ynglŷn â'r cais os yw'n credu bod hyn yn well na dibynnu ar ei sylw ysgrifenedig, er y rhoddir yr un pwys i'r ddau. Dylai cyflwyniadau llafar gael eu seilio ar sylwadau a wnaed yn ysgrifenedig yn flaenorol, ond ni ddylent ailadrodd materion yr ymdriniwyd â nhw yn y cyflwyniad ysgrifenedig yn syml. Yn hytrach, dylent ganolbwyntio ar fanylion penodol ac esboniad i helpu i lywio'r ExA. Ni ddylai sylwadau llafar gynnwys unrhyw ddeunydd newydd nac annisgwyl. Gofynnir i bob siaradwr ddarparu crynodeb ysgrifenedig gydag unrhyw dystiolaeth ategol neu gyfeiriadau yn dilyn y gwrandawïad.

Yn yr un modd â holl ddigwyddiadau'r Archwiliad, mae OFHau yn destun pwerau rheoli'r ExA, fel yr amlinellir yn Neddf Cynllunio 2008 a deddfwriaeth ategol. Mae'n rhaid i gyfranogwyr gofrestru o flaen llaw erbyn y Dyddiad Cau a ddangosir yn Amserlen yr Archwiliad ac yn unol â'r cyfarwyddiadau. Mae'n gyffredin i'r ExA roi terfyn amser i bob siaradwr, a gofynnir i siaradwyr sydd â phwyntiau cyffredin ddod ynghyd i enwebu llefarydd neu siaradwyr cynrychioliadol i ymdrin â phynciau penodol, er mwyn osgoi ailadrodd. Fel arfer, rhoddir amser ychwanegol i siaradwyr sy'n cynrychioli awdurdodau cyhoeddus, sefydliadau cymunedol ac aelodau neu nifer o IPau, i gydnabod eu rôl gynrychioliadol.

Mae DCO drafft yr Ymgeisydd yn darparu ar gyfer Caffael tir a hawliau yn Orfodol, a Meddiannu tir Dros Dro. Mae gan Unigolion yr Effeithir Arnynt (h.y. y rhai hynny yr effeithir ar eu tir neu eu hawliau dros dir) yr hawl i ofyn am **Wrandawïad Caffael Gorfodol (CAH)** ac i gael eu clywed ynddo. Os bydd un neu fwy o APau yn gofyn am gael eu clywed, mae'n rhaid i CAH gael ei gynnal. Mae dyddiadau dros dro ar gyfer CAHau wedi'u cynnwys yn Amserlen ddrafft yr Archwiliad ynghyd â Dyddiadau Cau erbyn pryd y mae'n rhaid i APau gyflwyno ceisiadau i gael eu clywed.

Mae gan yr ExA ddisgresiwn i gynnal **Gwrandawïadau Mater Penodol (ISHau)** os byddent yn helpu'r Archwiliad ac os oes rheswm penodol pam y byddai hyn yn fwy defnyddiol na dibynnu ar dystiolaeth ysgrifenedig yn unig. Os na chynhelir ISH ar un neu fwy o bynciau, nid yw hynny'n awgrymu bod pwnc penodol yn llai pwysig nag eraill sy'n destun gwrandawïad. Yn hytrach, mae'n dangos bod yr ExA yn fodlon y gellir ystyried y materion yn llawn trwy gyflwyniadau ysgrifenedig ac ymatebion i'w gwestiynau ysgrifenedig a bod pob parti wedi cael cyfle teg i gyflwyno ei achos.

Mae Amserlen ddrafft yr Archwiliad yn cynnwys nifer o ddyddiadau a gadwyd wrth gefn ar gyfer ISHau, a chaiff IPau awgrymu pynciau i'w trafod mewn ISH yn eu sylwadau ysgrifenedig neu lafar i'r Cyfarfod Rhagarweiniol.

Mae'n bosibl y bydd angen i'r ExA gynnal mwy nag un ISH ar y DCO drafft. Mae hyn yn arferol, a chânt eu cynnal heb ragfarnu. Gall partïon awgrymu addasiadau a diwygiadau i'r DCO drafft a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd gyda'r cais, heb ragfarnu eu safbwynt cyffredinol ar y cais.

Nid yw cynnal gwrandawiadau o'r fath yn awgrymu bod yr ExA wedi gwneud unrhyw ddyfarniadau ar rinweddau'r cais. Beth bynnag fo'r argymhelliad yn y pen draw, mae'n rhaid i'r ExA sicrhau bod y DCO drafft yn addas i'r diben os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu rhoi caniatâd, oherwydd bydd unrhyw ganiatâd yn ddarostyngedig i Ofynion (h.y. amodau) a amlinellir yn y DCO.

Mewn gwrandawiadau, ni fydd angen i bartïon wneud cyflwyniadau hir a manwl sy'n gofyn am gyflwyniadau PowerPoint (er enghraifft) fel arfer. Gellir darparu unrhyw fanylion/gwybodaeth ategol yn ysgrifenedig ar ôl y digwyddiad erbyn y Dyddiad Cau perthnasol.

Mae Amserlen ddrafft yr Archwiliad yn cynnwys Dyddiad Cau Gweithdrefnol (**Dydd Mawrth 25 Mehefin 2024**) i gyfranogwyr roi gwybod i'r ExA eu bod yn dymuno siarad mewn OFH neu CAH.

Archwiliadau safle

Yn rhan o broses yr Archwiliad, fe allai'r ExA gynnal archwiliadau safle. Gall y rhain fod yn ddigwmni neu gyda chwmni.

Diben y rhain yw galluogi'r ExA i weld nodweddion y cynigion o fewn cyd-destun y dystiolaeth a gyflwynwyd. Cyhoeddir nodiadau Archwiliadau Safle Digwmni (USlau) ar [dudalen we'r prosiect](#).

Bydd Archwiliadau Safle gyda Chwmni (ASI) yn angenrheidiol dim ond i weld tir nad oes gan y cyhoedd hawl i gael mynediad iddo, neu na ellir ei weld yn glir o leoliadau cyfagos sy'n agored i'r cyhoedd. Diben ASlau yw ymgyfarwyddo yn unig ac ni fydd rhinweddau'r Datblygiad Arfaethedig yn cael eu trafod o gwbl yn ystod ASI.

Fe allai'r ExA benderfynu cynnal USlau mewn lleoliadau perthnasol a enwebwyd, a gefnogir gan gyflwyno deunydd ychwanegol ar ffurf ysgrifenedig, ffotograffig, fideo neu hyd yn oed ddrôn os byddai hyn yn well nag ymweld â safleoedd neu gynnal ASlau mewn amgylchiadau a allai eu gwneud yn anodd a chymryd gormod o amser i'w cynnal (er enghraifft, os oes cyfyngiadau iechyd cyhoeddus ar waith). Fe allai'r ExA hefyd ystyried a fyddai'n briodol gwneud trefniadau i ddarparu mynediad yn unig i safleoedd penodol fel y gellid eu harchwilio yn rhan o USI ar sail angen mynediad (ARSI).

Mae Amserlen ddrafft yr Archwiliad yn cynnwys Dyddiad Cau i IPau wneud cyflwyniadau sy'n awgrymu safleoedd a lleoliadau y dylai'r ExA ymweld â nhw. Defnyddir y rhain i lywio USlau/ARSlau ychwanegol, yn ogystal ag ASlau posibl.

Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion

Dyma'r Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion a baratowyd fel sy'n ofynnol o dan adran 88(1) Deddf Cynllunio 2008. Fe'i paratowyd gan yr Awdurdod Archwilio (ExA) ar ôl iddo ddarllen:

- dogfennau'r cais;
- y Sylwadau Perthnasol a dderbyniwyd ynglŷn â'r cais; ac
- ystyried unrhyw faterion eraill pwysig a pherthnasol.

Mae'r asesiad cychwynnol hwn wedi llywio'r ExA wrth ffurfio barn dros dro ynglŷn â sut y dylid archwilio'r cais. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr na chyfyngol o'r materion a archwilir ac mae'n anochel y bydd rhai materion yn gorgyffwrdd neu'n rhyng-gysylltiedig. Bydd yr ExA yn ystyried yr holl faterion pwysig a pherthnasol yn ystod yr Archwiliad a phan fydd yn ysgrifennu ei Adroddiad Argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net ar ôl i'r Archwiliad ddod i ben.

Mae'r materion wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor ac nid yw hyn yn awgrymu unrhyw drefn blaenoriaeth na phwysigrwydd.

Mae'r polisi a'r gofynion a'r dogfennau cydsynio sy'n gysylltiedig â Deddf Cynllunio 2008 yn rhan annatod o'r Archwiliad ac felly nid ydynt wedi'u rhestru fel prif faterion.

Dylid nodi hefyd er nad yw effeithiau'r cynnig yn gysylltiedig â hawliau dynol a dyletswyddau cydraddoldeb wedi'u rhestru fel prif faterion, bydd yr ExA yn cynnal pob agwedd ar yr Archwiliad gyda'r rhain mewn cof.

1. Ansawdd Aer ac Iechyd Dynol
Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none">• Effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar iechyd dynol yn ystod adeiladu a gweithredu.• Priodoldeb mesurau lliniaru a monitro arfaethedig.
2. Adeiladu
Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none">• Rhaglen cyn-adeiladu ac adeiladu.• Gosodiad tyrbinau gwynt yn yr arâe.• Gosod ceblau allforio.• Cyfadeiladau adeiladu dros dro.• Ffyrdd cludo, ardaloedd paratoi a thorri ffosydd.• Is-orsaf ar y tir.

- Llwybr a gosodiad ceblau ar y tir.
- Oriau gwaith adeiladu craidd, oriau symudiadau dyddiol, a gwaith a allai ddigwydd y tu allan i'r oriau hyn.
- Digonolrwydd y Cod Ymarfer Adeiladu Amlinellol, datganiadau dull adeiladu amlinellol a chynlluniau rheoli.

3. Buddiannau Amddiffyn a Hedfanaeth Sifil a Milwrol

Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Effeithiau ar ddiogelwch a gweithrediadau hedfanaeth sifil a milwrol, gan gynnwys mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau posibl ar Uchder Diogel Isaf Maes Awyr Blackpool.
- Effeithiau ar radar, gan gynnwys Systemau Goruchwyliaeth Sylfaenol yn Lowther Hill, St Annes, Great Dun Fell, Maes Awyr Ronaldsway ar Ynys Manaw a Maes Awyr Lerpwl, a mesurau lliniaru priodol.
- Effeithiau posibl ar weithrediad a gallu systemau radar milwrol, gan gynnwys ym Maes Glanio Warton ac RAF y Fali.
- Effeithiau hedfanaeth ac amddiffyn cronol, gan ystyried ffermydd gwynt gweithredol ac arfaethedig eraill ym Môr Iwerddon.

4. Newid yn yr Hinsawdd ac Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr

Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Effeithiau adeiladu a gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig ar y newid yn yr hinsawdd.
- Asesu allyriadau nwyon tŷ gwydr a allai ddeillio o adeiladu a gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig a'r newid cyffredinol ynddynt.
- Effeithiolrwydd mesurau i liniaru allyriadau adeiladu.

5. Pysgodfeydd Masnachol

Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Gweithgareddau pysgota a digonolrwydd mesurau lliniaru a'r ymagwedd at fonitro.

6. Caffael Gorfodol a/ neu Feddiant Dros Dro

Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Faint o dir, hawliau a phwerau y bwriedir iddynt fod yn destun Caffael Gorfodol a/ neu Feddiant Dros Dro a'r angen amdanynt.
- Y gofyniad am y pwerau a geisir a'r angen i sefydlu achos cymhellol er budd y cyhoedd.

<ul style="list-style-type: none"> • Safbwynt a/ neu effeithiau Ymgwymerwyr Statudol a Darpariaethau Amddiffynnol a ph'un a fodlonir profion a127(2),(3),(5) a (6) ac a138(4) Deddf Cynllunio 2008. • Digonolrwydd a sicrwydd cyllid ar gyfer iawndal. • P'un a yw'r cynigion yn bodloni gofynion Deddf Cynllunio 2008 ym mhob ffordd arall.
<p>7. Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO)</p>
<p>Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Priodoldeb dDCO yr Ymgeisydd. • Erthyglau a Gofynion o fewn y dDCO. • Darpariaethau Amddiffynnol. • Trwydded Forol dybiedig (asedau cynhyrchu), gan gynnwys rhyngweithio â'r drwydded forol ar gyfer asedau trosglwyddo.
<p>8. Perygl Llifogydd a'r Amgylchedd Dŵr</p>
<p>Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cydymffurfedd â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD). • Cyrsiau dŵr wyneb a chroesfannau.
<p>9. Daeareg, Hydrodaeareg a Chyflwr y Tir</p>
<p>Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Effeithiau posibl ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Llanddulas a Choed Castell Gwrych. • Effeithiau posibl ar ddyrhaenau, ffynonellau cyflenwad dŵr daear preifat a mashachol. • Priodoldeb y mesurau lliniaru arfaethedig.
<p>10. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)</p>
<p>Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Digonolrwydd data a gwybodaeth y byddai'r HRA wedi'i seilio arnynt. • Sgrinio safleoedd a warchodir, effeithiau arwyddocaol tebygol, a'r rhai hynny a gyflwynir i'w hasesu. • Tebygolrwydd effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd cynefin, gan gynnwys gwybodaeth i asesu rhanddirymiad posibl.
<p>11. Yr Amgylchedd Hanesyddol</p>
<p>Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol:</p>

- Effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol ar y tir, gan gynnwys asedau treftadaeth dynodedig a heb eu dynodi a'u lleoliadau.
- Effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol rhynglanw ac alltraeth.
- Effeithiau ar olion archaeolegol a ph'un a oes angen ymchwilio ymhellach i ddeall dyddodion arwyddocaol posibl.
- Digonolrwydd mesurau lliniaru a monitro.

12. Defnydd Tir

Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Effeithiau ar dir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV).
- Asesiad o arwyddocâd effeithiau.

13. Tirwedd a Gweledol a Dylunio Da

Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Dyluniad yr Is-orsaf ar y Tir, gan gynnwys y gosodiad, mesurau lliniaru arfaethedig ar gyfer y dirwedd, ac ymgorffori egwyddorion dylunio da.
- Y Parth Gwelededd Damcaniaethol a golygfannau cynrychioliadol ar gyfer y delweddau o'r dirwedd.
- Effeithiau gweledol cronol gyda datblygiadau eraill (ar y tir).

14. Prosesau Ffisegol Morol a Newid Arfordirol

Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Erydu a gosod deunyddiau i atal erydu.
- Ansawdd dŵr y môr a gwaddodion.
- Effeithiau lleoliad glanio ac effeithiau ar yr arfordir.
- Digonolrwydd mesurau lliniaru a monitro.

15. Mordwyo a Morgludiant

Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Effeithiau'r prosiect yn unigol ac ar y cyd ar ddiogelwch mordwyo, gan gynnwys llwybro mewn tywydd garw.
- Yr Asesiad Risg Mordwyo, gan gynnwys yr Asesiad Risg Mordwyo Rhanbarthol Cronol.
- Parthau diogelwch.
- Effeithiau posibl ar Chwilio ac Achub morol.
- Posibilrwydd o darfu ar y diwydiannau morgludiant a mordwyo neu golled economaidd iddynt, gan gynnwys llwybrau strategol ar gyfer cludo

<p>teithwyr a nwyddau a gwasanaethau fferi allweddol sy'n gwasanaethu Ynys Manaw.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cydfodoli â ffermydd gwynt alltraeth eraill gweithredol neu arfaethedig ym Môr Iwerddon. • Effeithiau trawsffiniol, yn enwedig ar lwybrau morgludiant rhwng y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.
<p>16. Sŵn a Dirgryniad</p>
<p>Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Effeithiau sŵn a dirgryniad ar breswylwyr lleol, busnesau a defnyddwyr hamdden yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu. • Mesurau lliniaru a'u heffeithiolrwydd. • Rheoli a monitro effeithiau sŵn gweithredol.
<p>17. Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol Alltraeth</p>
<p>Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pysgod. • Cynefinoedd a rhywogaethau gwely'r môr rhynglanw ac islanw. • Mamaliaid môr. • Adar. • Effeithiau a rhyngweithiadau ecosystemau ehangach a rhywogaethau mudol perthnasol a warchodir.
<p>18. Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol ar y Tir</p>
<p>Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Effaith dros dro a pharhaol adeiladu a gweithredu ar safleoedd a chynefinoedd dynodedig o bwysigrwydd cadwraeth natur, gan gynnwys gwrychoedd, coetir hynafol a choed hynod. • Effeithiau dros dro a pharhaol ar rywogaethau o bwysigrwydd cadwraeth natur, gan gynnwys trwyddedu rhywogaethau a warchodir. • Digonolrwydd mesurau lliniaru a monitro arfaethedig, a sut gellid eu sicrhau. • Budd net i fioamrywiaeth a rheoli cynefinoedd a grëwyd yn y dyfodol.
<p>19. Seilwaith a Gweithgareddau Alltraeth Eraill</p>
<p>Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Effeithiau ar seilwaith alltraeth arall, gan gynnwys asedau olew a nwy a thelathrebu, a chydffodoli â nhw. • Effeithiau ar ddiwydiannau a gweithgareddau masnachol alltraeth eraill, gan gynnwys ôl-ffeithiau posibl ar gyfer ffermydd gwynt alltraeth eraill.

- Effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar ddefnyddwyr hamdden y môr.
- Mesurau lliniaru a chytundebau masnachol.

20. Y Morlun ac Adnoddau Gweledol

Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Digonolrwydd y fethodoleg a'r ymagwedd asesu, gan gynnwys maint ardaloedd astudio.
- Yr ymagwedd at asesiadau o'r effaith ar y morlun a'r effaith weledol.
- Digonolrwydd lleoliadau golygfannau.
- Cywirdeb ffotogyfosodiadau.
- Effeithiau ar gymeriad y morlun.

21. Materion Economaidd-Gymdeithasol

Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Effeithiau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig ar dderbynyddion economaidd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan gynnwys busnesau lleol, twristiaeth a gweithgareddau hamdden.
- Effeithiau cymdeithasol adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig o ran y boblogaeth, diwylliant, tai a llety.
- Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Amlinellol.

22. Traffig a Thrafnidiaeth

Gan gynnwys (er enghraifft) materion yn ymwneud â'r canlynol:

- Asesiad o effeithiau traffig adeiladu a llwythi anwahanadwy anghyffredin.
- Asesiad o effeithiau sy'n deillio o draffig gweithrediadau, cynnal a chadw, a datgomisiynu.
- Priodoldeb y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu Amlinellol.

Amserlen Ddrafft yr Archwiliad

Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Archwilio (ExA) i **gwblhau'r** Archwiliad o'r cais erbyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau'r diwrnod ar ôl i'r Cyfarfod Rhagarweiniol orffen.

Bydd y cais yn cael ei Archwilio trwy ystyried cyflwyniadau ysgrifenedig yn bennaf. Bydd yr ExA yn ystyried unrhyw sylwadau llafar a wnaed mewn gwrandawiadau hefyd.

Eitem	Materion	Dyddiad
1.	<p>Dyddiad Cau Gweithdrefnol</p> <p>Dyddiad cau i'r ExA dderbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyniadau ysgrifenedig ar weithdrefn yr Archwiliad, gan gynnwys unrhyw gyflwyniadau ynglŷn ag Amserlen ddrafft yr Archwiliad a defnyddio dulliau rhithwir • Sylwadau ar Sylwadau Perthnasol (RRau) ac unrhyw Gyflwyniadau Ychwanegol a dderbynnir yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Archwilio • Crynodebau o bob RR sy'n fwy na 1500 o eiriau • Cyflwyno Traciwr Cynnydd Cyn-Archwilio (gweler Rhan 5 Atodiad F) • Cyflwyno'r Traciwr Hawliau Tir gan yr Ymgeisydd (gweler Atodiad F) • Cyflwyno dogfennau wedi'u diweddarau a'u diwygio gan yr Ymgeisydd (gweler Atodiad F) • Ceisiadau i siarad yn y Cyfarfod Rhagarweiniol, gan gynnwys pa eitemau ar yr agenda yr hoffech sôn amdanynt • Ceisiadau i gymryd rhan yn y Gwrandawiadau Mater Penodol ar 16, 17 a 18 Gorffennaf 2024 (gweler Atodiad E) • Ceisiadau i gymryd rhan yn y Gwrandawriad Llawr Agored ar 19 Gorffennaf 2024 (gweler Atodiad E) • Lleoliadau awgrymedig ar gyfer archwiliadau safle, gan gynnwys cyfiawnhad a ph'un a ellir gweld y cyfryw leoliadau o dir cyhoeddus neu a oes angen mynediad preifat, i'w hystyried gan yr ExA 	<p>Dydd Mawrth 25 Mehefin 2024</p>

2.	Cyfarfod Rhagarweiniol	Dydd Mawrth 16 Gorffennaf 2024 10:00
3.	Gwrandawriad Mater Penodol (ISH1) ISH1 ar Gwmpas y Datblygiad	Dydd Mawrth 16 Gorffennaf 2024 14:00
4.	Gwrandawriad Mater Penodol (ISH2) ISH2 ar Faterion Amgylcheddol ar y Tir ac ar y Môr a'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft	Dydd Mercher 17 a dydd Iau 18 Gorffennaf 2024 09:30
5.	Gwrandawriad Llawr Agored (OFH1)	Dydd Gwener 19 Gorffennaf 2024 09:30
6.	Yr ExA i gyhoeddi: <ul style="list-style-type: none"> • Amserlen yr Archwiliad 	Cyn gynted â phosibl ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol
7.	Dyddiad Cau 1 I'r ExA dderbyn: <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau Ysgrifenedig (WRau), gan gynnwys crynodebau os ydynt yn fwy na 1500 o eiriau • Sylwadau ar unrhyw ddiweddariadau i ddogfennau'r cais a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd cyn y Cyfarfod Rhagarweiniol • Adroddiadau ar yr Effaith Leol gan unrhyw awdurdodau lleol • Sylwadau ar Draciwr Hawliau Tir yr Ymgeisydd • Amserlen ddrafft yr Ymgeisydd ar gyfer ASI • Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) a Datganiad Cyffredinrwydd cychwynnol y gofynnwyd amdanynt gan yr Awdurdod Archwilio (gweler Atodiad F) • Canllaw i'r Cais wedi'i ddiweddarau gan yr Ymgeisydd – fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Llyfr Cyfeirio (BoR) wedi'i ddiweddarau gan yr Ymgeisydd a Rhestr Newidiadau i'r BoR (os 	Dydd Mercher 7 Awst 2024

	<p>bydd angen) – fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhestr tracio rhwymedigaethau cynllunio a chytundebau ochr masnachol yr Ymgeisydd ac unrhyw gytundeb a106 drafft (gweler Atodiad F) • Rhestr Trafodaethau a Phwerau a Geisir wedi'i diweddarau gan yr Ymgeisydd – fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Hysbysiad gan Bartïon Statudol o'u dymuniad i gael eu hystyried yn IP gan yr ExA • Ceisiadau gan Unigolion yr Effeithir Arnynt i gymryd rhan mewn Gwrandawriad Caffael Gorfodol • Ceisiadau gan Bartïon â Buddiant i gymryd rhan mewn Gwrandawriad Llawr Agored arall • Cyflwyniadau ôl-wrandawriad, gan gynnwys cyflwyniadau ysgrifenedig o achosion llafar a sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau llafar a wnaed mewn gwrandawriadau • Hysbysiad o ddymuniad i dderbyn gohebiaeth yn y dyfodol yn electronig • Crynodebau o bob RR sy'n fwy na 1500 o eiriau (os na ddarparwyd hwy erbyn y Dyddiad Cau Gweithdrefnol Cyn-Archwiliad) • Ymatebion i RRau (os na ddarparwyd hwy erbyn y Dyddiad Cau Gweithdrefnol Cyn-Archwiliad) • Unrhyw wybodaeth arall y gofynnwyd amdani gan yr ExA o dan Reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 	
<p>8.</p>	<p>Dyddiad Cau 2</p> <p>I'r ExA dderbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ar WRau • Sylwadau ar LIRau • dDCO wedi'i ddiweddarau – fersiwn lân, fersiwn sy'n dangos newidiadau a fersiwn Word (os bydd angen) 	<p>Dydd Gwener 23 Awst 2024</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Memorandwm Esboniadol wedi'i ddiweddarau – fersiwn lân, fersiwn sy'n dangos newidiadau a fersiwn Word (os bydd angen) • Rhestr Newidiadau i'r dDCO wedi'i diweddarau (os bydd angen) • Diweddariad cyntaf yr Ymgeisydd i'r Traciwr Hawliau Tir • Canllaw i'r Cais wedi'i ddiweddarau gan yr Ymgeisydd – fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Rhestr Trafodaethau a Phwerau a Geisir wedi'i diweddarau gan yr Ymgeisydd – fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Sylwadau ar Ddatganiadau Tir Cyffredin cychwynnol • Ymatebion i sylwadau ar Sylwadau Perthnasol • Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau eraill a dderbyniwyd erbyn Dyddiad Cau 1 <p>Unrhyw wybodaeth arall y gofynnwyd amdani gan yr ExA o dan Reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010</p>	
<p>9.</p>	<p>Yr ExA i gyhoeddi: Cwestiynau Ysgrifenedig (ExQ1)</p>	<p>Dydd Gwener 13 Medi 2024</p>
<p>10.</p>	<p>Dyddiad Cau 3 I'r ExA dderbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion i'r Cwestiynau Ysgrifenedig (ExQ1) • dDCO wedi'i ddiweddarau – fersiwn lân, fersiwn sy'n dangos newidiadau a fersiwn Word (os bydd angen) • Memorandwm Esboniadol wedi'i ddiweddarau – fersiwn lân, fersiwn sy'n dangos newidiadau a fersiwn Word (os bydd angen) • Rhestr Newidiadau i'r dDCO wedi'i diweddarau (os bydd angen) • Datganiadau Tir Cyffredin a Datganiad Cyffredinrwydd wedi'u diweddarau y gofynnwyd amdanynt gan yr ExA (gweler Atodiad F y llythyr hwn) • Traciwr Hawliau Tir wedi'i ddiweddarau gan yr Ymgeisydd 	<p>Dydd Llun 30 Medi 2024</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Canllaw i'r Cais wedi'i ddiweddarau gan yr Ymgeisydd – fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Rhestr Trafodaethau a Phwerau a Geisir wedi'i diweddarau gan yr Ymgeisydd – fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Traciwr Cynnydd Archwiliad yr Ymgeisydd (gweler Rhan 5 Atodiad F) • BoR wedi'i ddiweddarau gan yr Ymgeisydd a Rhestr Newidiadau i'r BoR (os bydd angen) – fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Hysbysiad o ddymuniad i fynychnu Archwiliad Safle gyda Chwmni (ASI) (os bydd angen) • Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau eraill a dderbyniwyd erbyn Dyddiad Cau 2 • Unrhyw wybodaeth arall y gofynnwyd amdani gan yr ExA o dan Reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 	
<p>11.</p>	<p>Dyddiadau wedi'u cadw wrth gefn ar gyfer: Archwiliad Safle gyda Chwmni (os bydd angen) Gwrandawriad(au) Mater Penodol ychwanegol (os bydd angen) Gwrandawriad(au) Caffael Gorfodol (os bydd angen) Gwrandawriad(au) Llawr Agored ychwanegol (os bydd angen)</p>	<p>w/c 14 Hydref 2024 ac w/c 21 Hydref 2024</p>
<p>12.</p>	<p>Dyddiad Cau 4 I'r ExA dderbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ôl-wrandawriad, gan gynnwys cyflwyniadau ysgrifenedig o achosion llafar a sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau llafar a wnaed mewn gwrandawriadau (os bydd angen) • dDCO wedi'i ddiweddarau – fersiwn lân, fersiwn sy'n dangos newidiadau a fersiwn Word (os bydd angen) • Memorandwm Esboniadol wedi'i ddiweddarau – fersiwn lân, fersiwn sy'n dangos newidiadau a fersiwn Word (os bydd angen) 	<p>Dydd Llun 4 Tachwedd 2024</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Rhestr Newidiadau i'r dDCO wedi'i diweddaru (os bydd angen) • Traciwr Hawliau Tir wedi'i ddiweddaru gan yr Ymgeisydd • Canllaw i'r Cais wedi'i ddiweddaru gan yr Ymgeisydd – fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Rhestr Trafodaethau a Phwerau a Geisir wedi'i diweddaru gan yr Ymgeisydd – fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau eraill a dderbyniwyd erbyn Dyddiad Cau 3 • Unrhyw wybodaeth arall y gofynnwyd amdani gan yr ExA o dan Reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 	
<p>13.</p>	<p>Yr ExA i gyhoeddi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cwestiynau Ysgrifenedig Ychwanegol (ExQ2) (os bydd angen) • Adroddiad ar y Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd (RIES) (os bydd angen) • Sylwadau'r ExA ar y DCO drafft neu restr newidiadau iddo (os bydd angen) 	<p>Dydd Mawrth 19 Tachwedd 2024</p>
<p>14.</p>	<p>Dyddiad Cau 5</p> <p>I'r ExA dderbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig Ychwanegol yr ExA (ExQ2) (os bydd angen) • Sylwadau ar yr RIES (os bydd angen) • Sylwadau ar sylwadau'r ExA ar y DCO drafft neu'r rhestr newidiadau iddo (os bydd angen) • Datganiad Cyffredinrwydd wedi'i ddiweddaru ynghylch Datganiadau Tir Cyffredin • Darpariaethau Amddiffynnol terfynol y cytunwyd arnynt gydag ymgymerydd statudol perthnasol • Canllaw i'r Cais wedi'i ddiweddaru gan yr Ymgeisydd – fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Rhestr Trafodaethau a Phwerau a Geisir wedi'i diweddaru gan yr Ymgeisydd – fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau 	<p>Dydd Mawrth 3 Rhagfyr 2024</p>

	<ul style="list-style-type: none"> Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau eraill a dderbyniwyd erbyn Dyddiad Cau 4 Unrhyw wybodaeth arall y gofynnwyd amdani gan yr ExA o dan Reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 	
15.	<p>Dyddiadau wedi'u cadw wrth gefn ar gyfer unrhyw:</p> <ul style="list-style-type: none"> Wrandawriad(au) Mater Penodol Ychwanegol (os bydd angen) Gwrandawriad(au) Llawr Agored Ychwanegol (os bydd angen) Gwrandawriad(au) Caffael Gorfodol Ychwanegol (os bydd angen) Archwiliad Safle Ychwanegol gyda Chwmni (os bydd angen) 	w/c 9 Rhagfyr 2024
16.	<p>Dyddiad Cau 6</p> <p>I'r ExA dderbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyflwyniadau ôl-wrandawriad, gan gynnwys cyflwyniadau ysgrifenedig o achosion llafar (os yw'n berthnasol) Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau eraill a dderbyniwyd erbyn Dyddiad Cau 5 Unrhyw wybodaeth arall y gofynnwyd amdani gan yr ExA o dan Reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 	Dydd Gwener 20 Rhagfyr 2024
17.	<p>Dyddiad Cau 7</p> <p>I'r ExA dderbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Datganiad(au) i Gloi gan IPau (os dymunir, gweler Atodiad F) Traciwr Cynnydd Diwedd yr Archwiliad gan yr Ymgeisydd (gweler Rhan 5 Atodiad F) DCO drafft terfynol i'w gyflwyno gan yr Ymgeisydd yn y templed Offeryn Statudol gydag adroddiad dilysu templed Offeryn Statudol (fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau) Memorandwm Esboniadol terfynol – fersiwn lân, fersiwn sy'n dangos newidiadau a fersiwn Word 	Dydd Mawrth 14 Ionawr 2025

	<ul style="list-style-type: none"> • Rhestr Newidiadau i'r dDCO derfynol (os bydd angen) • Datganiad Cyffredinwydd terfynol a SoCGau terfynol • BoR terfynol a Rhestr Newidiadau i'r BoR • Traciwr Hawliau Tir terfynol yr Ymgeisydd • Canllaw i'r Cais terfynol yr Ymgeisydd – fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Rhestr Trafodaethau a Phwerau a Geisir derfynol yr Ymgeisydd – fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Rhestrau tracio rhwymedigaethau cynllunio a chytundebau ochr masnachol terfynol yr Ymgeisydd (gweler Rhan 11 Atodiad F) • Unrhyw gytundebau adran 106 llofnodedig a dyddiedig terfynol, ynghyd ag atodlen cydymffurfio â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) • Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau eraill a dderbyniwyd erbyn Dyddiad Cau 6 • Unrhyw wybodaeth arall y gofynnwyd amdani gan yr ExA o dan Reol 17 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 	
<p>18.</p>	<p>Mae'n ddyletswydd ar yr ExA i gwblhau'r Archwiliad o'r cais erbyn diwedd y cyfnod o chwe mis</p>	<p>Dydd Iau 16 Ionawr 2025</p>

Amserau cyflwyno ar gyfer Dyddiadau Cau

Yr amser ar gyfer cyflwyno dogfennau erbyn unrhyw Ddyddiad Cau yn yr amserlen yw 23:59 ar ddyddiad y Dyddiad Cau perthnasol, oni chyfarwyddir fel arall gan yr ExA.

Dyddiadau cyhoeddi

Bydd yr holl wybodaeth a dderbynnir yn cael ei chyhoeddi ar [dudalen we'r prosiect](#) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y Dyddiadau Cau ar gyfer cyflwyniadau.

Adroddiad ar y Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd (RIES)

Pan fydd ymgeisydd wedi darparu Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol neu Adroddiad Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) gyda'r cais, fe allai'r ExA benderfynu cyhoeddi RIES yn ystod yr Archwiliad. Mae'r RIES yn adroddiad ffeithiol

ar y wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r ExA ynglŷn â materion HRA yn ystod yr Archwiliad hyd at ddyddiad cyhoeddi'r RIES, er mwyn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, sef yr awdurdod cymwys, i gynnal ei HRA. Nid barn yr ExA am faterion HRA ydyw. Bydd yr ExA yn gwahodd sylwadau ar yr RIES a bydd unrhyw rai a dderbynnir yn cael eu hystyried yn rhan o Argymhelliad yr ExA i'r Ysgrifennydd Gwladol. Fe allai'r ExA ofyn cwestiynau yn yr RIES hefyd i gadarnhau neu egluro materion sy'n weddill o hyd.

Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddibynnu ar yr ymgynghoriad ar yr RIES i fodloni ei rwymedigaethau o dan Reoliad 63(3) Rheoliadau Cynefinoedd 2017 a/ neu Reoliad 28 y Rheoliadau Morol Alltraeth.

Hysbysiad o wrandawiadau cychwynnol

Dyddiad	Gwrandawriad	Amser dechrau	Lleoliad a manylion ymuno
Dydd Mawrth 16 Gorffennaf 2024	Gwrandawriad Mater Penodol 1 (ISH1) ar Gwmpas y Datblygiad	Cofrestru a seddau ar gael yn y lleoliad o: 13:30 Proses Gofrestru Rithwir o: 13:30 Gwrandawriad yn dechrau: 14:00	Venue Cymru, y Promenâd, Llandudno, LL30 1BB ac yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu darparu o flaen llaw i'r rhai sydd wedi cofrestru eisoes
Dydd Mercher 17 Gorffennaf 2024	Gwrandawriad Mater Penodol 2 (ISH2) ar Faterion Amgylcheddol ar y Tir ac ar y Môr a'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft	Cofrestru a seddau ar gael yn y lleoliad o: 09:00 Proses Gofrestru Rithwir o: 09:00 Gwrandawriad yn dechrau: 09:30	Venue Cymru, y Promenâd, Llandudno, LL30 1BB ac yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu darparu o flaen llaw i'r rhai sydd wedi cofrestru eisoes
Dydd Iau 18 Gorffennaf 2024	Gwrandawriad Mater Penodol 2 (ISH2) (parhau, os bydd angen) ar Faterion Amgylcheddol ar y Tir ac ar y Môr a'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft	Cofrestru a seddau ar gael yn y lleoliad o: 09:00 Proses Gofrestru Rithwir o: 09:00 Gwrandawriad yn dechrau: 09:30	Venue Cymru, y Promenâd, Llandudno, LL30 1BB ac yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu darparu o flaen llaw i'r rhai sydd wedi cofrestru eisoes

Dyddiad	Gwrandawriad	Amser dechrau	Lleoliad a manylion ymuno
Dydd Gwener 19 Gorffennaf 2024	Gwrandawriad Llaur Agored 1 (OFH1)	<p>Cofrestru a seddau ar gael yn y lleoliad o:</p> <p>09:00</p> <p>Proses Gofrestru Rithwir o:</p> <p>09:00</p> <p>Gwrandawriad yn dechrau:</p> <p>09:30</p> <p>Gwrandawriad hanner diwrnod yw hwn ac mae'r ExA yn bwriadu dod â'r trafodion i ben erbyn tua 13:00.</p>	<p>Venue Cymru, y Promenâd, Llandudno, LL30 1BB</p> <p>ac</p> <p>yn rithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams</p> <p>Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu darparu o flaen llaw i'r rhai sydd wedi cofrestru eisoes</p>

SYLWER: Os na fydd angen unrhyw un o'r gwrandawriadau uchod mwyach, bydd hysbysiad sy'n datgan nad oes angen dyddiad penodol mwyach yn cael ei gyhoeddi ar [dudalen we'r prosiect](#) cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gan roi rhybudd rhesymol i Bartion â Buddiant o'r penderfyniad i'w canslo.

Mae'n rhaid i chi gofrestru trwy [anfon neges e-bost at fewnflwch y prosiect](#) erbyn y Dyddiad Cau Gweithdrefnol (dydd Mawrth 25 Mehefin 2024) os ydych yn bwriadu cymryd rhan yn unrhyw un o'r gwrandawriadau a darparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani (gweler isod).

Os hoffech arsylwi unrhyw un o'r gwrandawriadau yn unig, nid oes angen i chi gofrestru oherwydd gallwch naill ai:

1. wylio ffrwd fyw o'r digwyddiad – bydd dolen i'r ffrwd fyw ar gael ar [dudalen we'r prosiect](#) yn fuan cyn y trefnwyd i'r digwyddiad ddechrau; a/neu
2. wylio'r recordiad o'r digwyddiad a gyhoeddir ar dudalen we'r prosiect yn fuan ar ôl i'r digwyddiad orffen.

Fel arall, gallwch fynychu'r gwrandawriad yn y lleoliad i arsylwi'r trafodion; fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod digon o seddau ar gael yn y lleoliad, gofynnwn i chi gofrestru eich presenoldeb i **arsylwi yn unig** erbyn **dydd Mawrth 25 Mehefin 2024** trwy [anfon neges e-bost at fewnflwch y prosiect](#). Sylwch efallai na fydd modd i chi

gymryd rhan ar y diwrnod os nad ydych wedi cofrestru eich dymuniad i siarad erbyn **dydd Mawrth 25 Mehefin 2024**.

Mae'n **rhaidd** i unrhyw gais i gymryd rhan mewn gwrandawriad **gynnwys** y wybodaeth ganlynol:

- Enw a rhif cyfeirnod unigryw (sydd ar frig eich llythyr neu'ch neges e-bost gan yr Arolygiaeth Gynllunio);
- cyfeiriad e-bost (os yw ar gael) a rhif ffôn cyswllt;
- enw a rhif cyfeirnod unigryw unrhyw unigolyn/sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli (os yw'n berthnasol);
- o ran digwyddiadau cyfunol, cadarnhad ynghylch p'un a fyddwch yn cymryd rhan yn rhithwir neu wyneb yn wyneb;

Dylid cyflwyno ceisiadau i gymryd rhan trwy [anfon neges e-bost at fewnflwch y prosiect](#) ar y **Dyddiad Cau Gweithdrefnol (dydd Mawrth 25 Mehefin 2024)** neu cyn hynny.

Cysylltwch â Thîm yr Achos gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn os oes arnoch angen unrhyw gymorth i fynychu unrhyw un o'r gwrandawriadau, naill ai'n rhithwir neu wyneb yn wyneb.

Agendâu gwrandawriadau

Bydd yr ExA yn cyhoeddi agenda ddrafft ar dudalen we'r prosiect o leiaf bum niwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawriad. Fodd bynnag, fe allai'r union agenda ar ddiwrnod pob gwrandawriad newid yn ôl disgrisiwn yr ExA.

Y weithdrefn mewn gwrandawriadau

Bydd yr Archwiliad yn broses ysgrifenedig yn bennaf (gweler [Nodyn Cyngor 8.4: Yr Archwiliad yr Arolygiaeth Gynllunio](#)), a ategir gan wrandawriadau o fathau amrywiol lle y bo'r angen. Cyfeiriwch at [Nodyn Cyngor 8.5: Gwrandawriadau ac archwiliadau safle](#) a [Nodyn Cyngor 8.6: Digwyddiadau Archwiliad Rhithwir](#) gan fod y rhain yn darparu gwybodaeth bwysig am weithdrefnau gwrandawriadau.

Amlinellir y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn gwrandawriadau yn Rheol 14 Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010. Mae'r ExA yn gyfrifol am holi unigolyn sy'n rhoi tystiolaeth ar lafar a phrin iawn yw'r cyfleoedd a ganiateir i groesholi rhwng partïon yn rhan o'r broses.

Ffrwd fyw a recordiad o'r gwrandawriad

Bydd dolen i ffrwd fyw ar gyfer pob gwrandawriad ar gael ar [dudalen we'r prosiect](#) yn fuan cyn i unrhyw wrandawriad ddechrau. Mae'r ffrwd fyw ar gael i unrhyw un sy'n dymuno arsylwi gwrandawriad yn fyw.

Mae pob gwrandawriad yn cael ei recordio, a bydd y recordiadau ar gael ar [dudalen we'r prosiect](#) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r gwrandawriad orffen. Mae'r recordiadau'n caniatáu i unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd â diddordeb yn y cais a'r Archwiliad gael gwybod beth a drafodwyd.

Y Gymraeg

Croesawn gyfraniadau yn Gymraeg yn ystod yr Archwiliad. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael mewn unrhyw wrandawriadau a gynhelir i ganiatáu i'r rhai sy'n bresennol gyfrannu yn Gymraeg, os ydynt yn dymuno.

Penderfyniadau Gweithdrefnol eraill a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio

Mae'r Awdurdod Archwilio (ExA) wedi gwneud y Penderfyniadau Gweithdrefnol canlynol o dan adran 89(3) Deddf Cynllunio 2008.

1. Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) a Datganiad Cyffredinrwydd

Diben SoCGau

Mae'r ExA yn croesawu ymrwymiad yr Ymgeisydd yn Adran 7 ei Adroddiad Ymgynghori [APP-037] i geisio llunio SoCGau gydag ymgynghoreion allweddol.

Nod SoCG yw cytuno ar wybodaeth ffeithiol a rhoi gwybod i'r ExA a'r holl bartion eraill trwy nodi meysydd cytundeb ac anghytundeb ar gam cynnar o broses yr Archwiliad. Fe ddylai ddarparu canolbwynt ac arbed amser trwy amlygu materion nad oes anghydfod yn eu cylch neu nad oes angen iddynt fod yn destun tystiolaeth ychwanegol.

Yn arbennig, dylai'r SoCG amlygu'r gwahaniaethau rhwng partion a'r rhesymau dros unrhyw anghytundeb neu faterion sy'n weddill. Lle y ceir anghytundeb, byddai'n ddefnyddiol i'r ExA petai'r SoCG yn nodi pa gamau y gellid eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion sy'n destun dadl.

Os oes cytundeb wedi'i gofnodi rhwng yr Ymgeisydd ac unrhyw barti a restrir isod mewn perthynas â Darpariaethau Amddiffynnol ac nid oes unrhyw anghytundebau eraill yn parhau, byddai datganiad i'r perwyl hwn yn ddigonol ac ni fydd angen SoCG. Os nad oes cytundeb o'r fath, hyd yn oed os disgwylir dod i gytundeb, dylid darparu SoCG.

Cais SoCG cychwynnol

Mae'r ExA yn gofyn am gael SoCGau rhwng yr Ymgeisydd a'r partion canlynol:

- a. Cyngor Sir Ddinbych
- b. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- c. Cyngor Sir Ynys Môn
- ch. Llywodraeth Ynys Manaw – Pwyllgor Môr Tiriogaethol
- d. Cyfoeth Naturiol Cymru (cynghorol) a Thîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru
- dd. Natural England
- e. Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
- f. Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar Cymru
- ff. Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau
- g. Tŷ'r Drindod
- ng. Siambr Forgludiant y Deyrnas Unedig
- h. NATS (En Route) plc
- i. Y Sefydliad Seilwaith Amddiffyn (y Weinyddiaeth Amddiffyn)
- j. Maes Awyr Blackpool
- l. National Grid Electricity Transmission Plc
- ll. Network Rail Limited

- m. Dŵr Cymru Welsh Water
- n. SP Manweb PLC
- o. Wales and West Utilities
- p. Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ar ran Gweinidogion Cymru fel Awdurdod Prifffyrdd Strategol
- ph. Cadw
- r. Heneb: Archaeoleg Clwyd-Powys
- rh. Heneb: Archaeoleg Gwynedd

Yn dibynnu ar faterion sy'n codi yn ystod yr Archwiliad, fe allai'r ExA amlygu partiön ychwanegol y mae angen SoCG â nhw.

Materion y dylid ymdrin â nhw mewn SoCGau

Dylai SoCGau ymdrin â'r materion canlynol, i'r graddau eu bod yn berthnasol i fuddiannau penodol y parti:

- fel y bônt yn briodol i'w faes cyfrifoldeb, y materion a restrir o dan y penawdau perthnasol yn Asesiad Cychwynnol yr ExA o'r Prif Faterion (gweler Atodiad C y llythyr hwn);
- yr holl faterion a godwyd yn ei Sylw Perthnasol;
- polisïau, deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol;
- erthyglau a Gofynion y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft [AS-010], gan gynnwys unrhyw newidiadau drafftio a geisir;
- cynlluniau lliniaru, monitro a rheoli;
- crynodeb o faterion y cytunwyd arnynt a materion na chytunwyd arnynt neu sy'n weddill;
- manylion unrhyw gytundebau atodol, fel Cytundebau Adran 106 drafft neu gytundebau ochr masnachol; ac
- unrhyw faterion eraill y gallai cytundeb arnynt hwyluso'r Archwiliad a chynorthwyo argymhelliad yr ExA i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Cyflwyno SoCGau

Oni nodir neu cytunir fel arall, dylai'r SoCG gael ei gytuno rhwng yr Ymgeisydd a'r Parti/Partiön â Buddiant (IP) arall/eraill perthnasol, a'i **gyflwyno gan yr Ymgeisydd** erbyn y dyddiadau cau a nodir yn Atodiad D. Lle y ceir anghytundeb, byddai'n ddefnyddiol i'r ExA petai'r SoCG yn nodi pa gamau y gellid eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion sy'n destun dadl.

Datganiad Cyffredinrwydd

Ar bob adeg pan gyflwynir y SoCGau wedi'u diweddarau erbyn dyddiad cau yn Amserlen yr Archwiliad, gofynnir i'r Ymgeisydd gyflwyno Datganiad Cyffredinrwydd wedi'i ddiweddarau. Dylai'r ddogfen hon ddarparu trosolwg o sefyllfa pob SoCG ar y dyddiad cau perthnasol, er enghraifft gan nodi lle mae trafodaethau'n parhau a lle y cyflwynwyd SoCG terfynol, llofnodedig. Byddai hefyd yn ddefnyddiol i'r ExA gael crynodebau o gyffredinrwydd mewn perthynas â phrif bynciau'r Archwiliad. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno mewn tabl gyda chod lliw, lle bynnag y bo'n bosibl.

2. Adroddiadau ar yr Effaith Leol

Adroddiad ysgrifenedig yw Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) sy'n rhoi manylion ynglŷn ag effaith debygol Datblygiad Arfaethedig ar ardal awdurdod lleol (neu unrhyw ran o'r ardal honno). I gael rhagor o wybodaeth am bwysigrwydd a chynnwys LIRau, gweler ein [Nodyn Cyngor Un: Adroddiadau ar yr Effaith Leol](#).

Mae'r ExA yn gofyn am LIRau gan yr awdurdodau lleol cynhaliol ac yn croesawu LIRau gan unrhyw awdurdodau lleol eraill perthnasol a ddiffinnir yn adran 56A Deddf Cynllunio 2008 a allai ddymuno cyflwyno un. Gofynnir i bob LIR gael ei gyflwyno i'r Archwiliad **erbyn Dyddiad Cau 1 (dydd Mercher 7 Awst 2024)** fan bellaf fel y gellir dechrau'r Archwiliad yn ddwys a gwneud y mwyaf o'r amser sydd ar gael.

3. Traciwr Hawliau Tir

Mae'r ExA yn nodi Rhestr Trafodaethau'r Ymgeisydd, sy'n ffurfio Atodiad 1 i'r Datganiad o'r Rhesymau [\[APP-029\]](#).

Fodd bynnag, mae'r ExA yn dymuno mynd â'r data hwn gam ymhellach trwy gofnodi a thrin yr holl hawliau tir nad ydynt wedi'u cytuno ar ddechrau'r Archwiliad mewn tabl syml, ymarferol. Y nod yw ei gwneud yn haws o lawer i'r Ymgeisydd adrodd ar drafodaethau parhaus gydag unigolion yr effeithir arnynt ac eraill, a gwneud y broses o adrodd ar faterion o'r fath i'r Ysgrifennydd Gwladol yn fwy effeithlon.

Gyda hynny mewn golwg, mae'r ExA wedi gwneud Penderfyniad Gweithdrefnol i ofyn i'r Ymgeisydd gwblhau a chynnal Traciwr Hawliau Tir; dangosir enghraifft ohono yn y ffigur isod a bydd Tîm yr Achos yn anfon copi at yr Ymgeisydd. Yn yr enghraifft, byddai strwythur y Traciwr Hawliau Tir yn darparu adroddiad cynhwysfawr o statws unigolion yr effeithir arnynt nad oes cytundeb gyda nhw, gyda chelloedd penodol yn darparu cwymplen gyfyngedig o ymatebion posibl. Byddai testun cryno, penodol yn unig yn cael ei fewnbynnu mewn celloedd agored i sicrhau bod y tabl yn ddarllenadwy.

Trwy dderbyn diweddariadau rheolaidd a fersiynau terfynol o'r Traciwr Hawliau Tir, byddai'r ExA a'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu trin a didoli'r tabl er mwyn cyfeirio ac adolygu'n gywir. Mae'r ExA yn cydnabod mai drafft yn unig yw'r ffigur isod ac nad yw'n ofyniad statudol. Fodd bynnag, gobeithir y bydd yr Ymgeisydd ac Unigolion yr Effeithir Arnynt yn cydnabod mai diben y Traciwr Hawliau Tir yw symleiddio'r broses archwilio, argymell a phenderfynu gyfan, a gobeithir y bydd defnyddio cwymplenni'n gwneud y broses o ddiweddarau'r traciwr yn un gymharol syml a chyflym.

Felly, mae'r ExA yn gobeithio y bydd yr holl bartion yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r broses. Os bydd yr Ymgeisydd o'r farn y gellir cyfleu'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer y Traciwr Hawliau Tir mewn ffordd wahanol a mwy effeithlon neu drwy ddefnyddio meddalwedd wahanol, fe allai ddymuno trafod gyda'r Rheolwr Achos a rhoi diweddariad i'r ExA yn y Cyfarfod

Rhagarweiniol. Mae'r ExA yn gofyn i'r Traciwr Hawliau Tir gael ei gyflwyno i'r Archwiliad erbyn y Dyddiad Cau Gweithdrefnol ac yna erbyn y dyddiadau cau dilynol a amlinellir yn Atodiad D. Gall yr Ymgeisydd osgoi cyflwyno diweddariadau fel y nodir uchod os nad oes newidiadau i'r fersiwn flaenorol.

[NAME OF PROJECT]: Schedule and Status of Objections to Land Rights including Temporary Possession, Compulsory Acquisition, Statutory Undertakers and Special Land Cases

Notes

1. All interests which are not already acquired at the point of submission should be entered in this tracker and marked as complete when agreement with known interests is reached.
2. Any non-agreement is also counted as an objection by an Affected Person(s) (AP) for the purpose of this tracker.
3. An entry should also be made where the interest (or potential interest) holder is not known, to allow the relevant information to be added following diligent inquiry, negotiation etc.

Special Category Status

Confirm if this interest lies in any special category land

Statutory Undertakers and Operational Land Status

Is the Affected Person a Statutory Undertaker and is the status of the land as operational, known as operational, not operational or disputed?

Give current status

Are Protective Provisions required and if yes, are they the applicant's draft, a working draft under discussion or an agreed draft?

Book of Ref. Plot No. [a]	Plan Ref. No. [b]	Description of Land and Rights Requested [c]	Category 1 [d]			Category 2 [e]	Agent/Representative [f]	IP/AP Ref No. [g]	RR Ref No. [h]	WR Ref No. [i]	Other Doc Ref No. [j]	Applicant's Response Refs. [k]	Duration of Temporary Rights [l]	Special Category	Special Category - other information including confirmation of status	Is the Affected Person a Statutory Undertaker and is the land operational?	Protective Provision Status (Select from drop down list)	Side Agreements (Select from drop down list)	Status of objection [m]	Heads of Terms (Select from drop down list)	Complete (Select from drop down list)	Last Updated [DD/MM/YY YY]	
			(Crown, Allotment, NT etc) (Select from drop down list)																				
														Cells in this column to use a drop down list to include: - Crown Land - National Trust - Allotment - Commons - Open Space - Other		Cells in this column to use a drop down list to include: - Not SU - SU and known operational - SU and unknown operational - SU and disputed operational	Cells in this column to use a drop down list to include: - Not required - Draft under discussion - Agreed - Agreed and in latest version of DCO - No agreement on final version	Cells in this column to use a drop down list to include: - Not required - Draft under discussion - Agreed		Cells in this column to use a drop down list to include: - None Drafted - Draft under discussion - Agreed	Cells in this column to use a drop down list to include: - Yes - No		
Add new lines as required																							

- [a] Plot no. from the Book of Reference (BoR).
- [b] Plan reference number from the BoR and Examination Library (EL) Reference.
- [c] Description of land and rights requested from the BoR including restrictive covenants.
- [d] A person is within Category 1 if the Applicant, after making diligent inquiry, knows that the person is an owner, lessee, tenant (whatever the tenancy period) or occupier of the land, see section 57 (1) of the 2008 Act.
- [e] A person is within Category 2 if the Applicant, after making diligent inquiry knows that the person: interested in the land or has the power to sell or convey the land or to release the land, see Section 57(20) of the 2008 Act.
- [f] Person or organisation representing the interests of the AP(s). Enter N/A if the AP(s) are representing themselves.
- [g] Reference number assigned to each Interested Party (IP) and Affected Person (AP).
- [h] Reference number assigned to each Relevant Representation in the EL.
- [i] Reference number assigned to each Written Representation (WR) in the EL.
- [j] Reference number assigned to any other document in the EL.
- [k] Reference numbers assigned to all of the Applicant's responses in the EL including specific reference to relevant sections within documents
- [l] Likely duration of any temporary rights such as Temporary Possession [TP].
- [m] Narrative on negotiations to date

4. Archwiliadau Safle

Mae Amserlen ddrafft yr Archwiliad yn **Atodiad D** i'r llythyr hwn yn cynnwys dyddiad a gadwyd wrth gefn ar gyfer Archwiliad Safle gyda Chwmni (ASI) yn yr wythnosau sy'n dechrau ar 14 a 21 Hydref 2024.

Safbwynt cychwynnol yr ExA yw y bydd ASlau yn cael eu defnyddio dim ond pan fydd angen archwilio safle yng nghwmni Parti â Buddiant, er enghraifft pan fydd angen mynediad i dir preifat. Fe allai hefyd fod yn briodol gwneud trefniadau i ddarparu mynediad yn unig i safleoedd penodol fel y gellid eu harchwilio yn rhan o Archwiliad Safle Digwmni ar sail 'angen mynediad'.

Gwahoddir Partïon â Buddiant i gyflwyno unrhyw awgrymiadau ar gyfer lleoliadau i'w harchwilio gan yr ExA. Mae'n rhaid derbyn enwebiadau ar gyfer lleoliadau i'w harchwilio **erbyn y Dyddiad Cau Gweithdrefnol, sef dydd Mawrth 25 Mehefin 2024**. Mae'n rhaid i chi nodi'r rheswm dros yr enwebiad a'r materion sydd i'w harsylwi. Dylech hefyd nodi p'un a fyddai angen mynediad i dir preifat ac, os felly, darparu manylion cyswllt ar gyfer mynediad. Byddai'n ddefnyddiol pe gellid anfon enwebiadau ar wahân i unrhyw gyflwyniad ysgrifenedig arall.

Gofynnir i'r Ymgeisydd baratoi amserlen ddrafft ar gyfer yr ASI i'w chyflwyno **erbyn Dyddiad Cau 1, sef dydd Mercher 7 Awst 2024**. Fe ddylai ganolbwyntio ar dir preifat y mae angen mynediad iddo, gan ystyried:

- lleoliadau y cyfeiriwyd atynt yn y Sylwadau Perthnasol;
- unrhyw lleoliadau eraill lle mae'r Ymgeisydd wedi rhagfynegi effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol; a
- lleoliadau a awgrymwyd gan Bartïon â Buddiant a gyflwynwyd erbyn y Dyddiad Cau Gweithdrefnol.

Mae'n rhaid i sylwadau gan Bartïon â Buddiant ar amserlen ddrafft yr Ymgeisydd gael eu cyflwyno **erbyn Dyddiad Cau 2, sef dydd Gwener 23 Awst 2024**.

Bydd yr ExA yn ystyried pob lleoliad a awgrymir, gan gynnwys y rhai hynny a ddarperir yn amserlen ddrafft yr Ymgeisydd, i bennu a ellid ei weld o dir cyhoeddus yn ddigwmni neu a oes angen ei weld gyda chwmni. Bydd yr ExA hefyd yn ystyried a fyddai'n briodol gwneud trefniadau ar gyfer darparu mynediad yn unig i safleoedd penodol fel y gellid eu harchwilio yn rhan o Archwiliad Safle Digwmni ar sail angen mynediad.

Bydd yr ExA yn cyhoeddi ei amserlen derfynol o leiaf bum niwrnod gwaith cyn dyddiad yr ASI.

Dylai Partïon â Buddiant fod yn ymwybodol nad yw ASlau yn gyfle i wneud unrhyw sylwadau llafar i'r ExA ynglŷn â'r Datblygiad Arfaethedig. Fodd bynnag, fe allai'r ExA wahodd cyfranogwyr i amlygu nodweddion penodol neu safleoedd o ddiddordeb.

5. Traciwr Cynnydd yr Archwiliad

Mae'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd gyflwyno Traciwr Cynnydd yr Archwiliad, ar ffurf tabl, gan adrodd ar yr hyn y mae'n ystyried yn brif faterion yr Archwiliad a materion eraill nodedig ynddo. Hoffai'r ExA i'r Ymgeisydd amlinellu hyn yn ôl mater a/neu is-fater, yr IP(au) sydd wedi'u codi, crynodeb o'r pryder(on)/gwrthwynebiad(au) a'r cynnydd sy'n cael ei wneud (os o gwbl), a'r sefyllfa wedi'i diweddarau ac unrhyw gynnydd tuag at ddatrysiad. Fe allai'r Ymgeisydd ystyried defnyddio system "goleuadau traffig" yn y tabl er hwylustod cyfeirio.

Mae'r ExA yn gofyn i'r Draciwr Cynnydd cychwynnol gael ei gyflwyno **erbyn y Dyddiad Cau Gweithdrefnol, sef dydd Mawrth 25 Mehefin 2024**, ac yna erbyn y dyddiadau cau dilynol a amlinellir yn Atodiad D.

6. Sylwadau ar Sylwadau Perthnasol (RRau)

Mae Rheol 3(2) Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 yn mynnu bod sylwadau ysgrifenedig ar unrhyw RRau yn cael eu cyflwyno naill ai ar ddyddiad y Cyfarfod Rhagarweiniol, neu ar ddyddiad a nodir yn y llythyr Rheol 8, sy'n dilyn cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol, pa un bynnag sydd hwyraf. I gydymffurfio, mae'r ExA wedi gofyn am gael ymatebion i RRau a chrynodebau o sylwadau sy'n fwy na 1500 o eiriau **erbyn Dyddiad Cau 1, sef dydd Mercher 7 Awst 2024**. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol i'r ExA, ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol a'r gwrandawiadau dilynol, pe gellid cyflwyno sylwadau ar RRau **erbyn y Dyddiad Cau Gweithdrefnol, sef dydd Mawrth 25 Mehefin 2024**.

Dylai sylwadau ar Sylwadau Perthnasol:

- nodi enwau'r partïon sy'n gwneud y sylw a chyfeirnod perthnasol Llyfrgell yr Archwiliad er mwyn dangos yr ymatebwyd i'r holl Sylwadau Perthnasol; a
- lle y cyflwynwyd sylw manwl neu ar ffurf tabl, cyflwyno ymatebion mewn modd tebyg er mwyn sicrhau yr ymatebir i'r holl bwyntiau mewn modd tebyg.

7. Cais am gyflwyno dogfennau wedi'u diweddarau yn rheolaidd drwy gydol yr Archwiliad

Mae'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd gyflwyno Canllaw i'r Cais wedi'i ddiweddarau erbyn pob dyddiad cau, sy'n darparu rhestr o'r dogfennau mwyaf cyfredol sydd gerbron yr Archwiliad, a Rhestr Trafodaethau wedi'i diweddarau (Atodiad 1 y Datganiad o'r Rhesymau) sy'n amlinellu statws trafodaethau â'r holl bartïon y mae'r gwaith arfaethedig yn effeithio arnynt. Mae'n rhaid cyflwyno fersiynau terfynol erbyn **Dyddiad Cau 7 (dydd Mawrth 14 Ionawr 2025)**, cyn i'r Archwiliad gau.

8. Cyflwyno Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) a Llyfr Cyfeirio (BoR)

Pan fydd yr Ymgeisydd yn cyflwyno dDCO diwygiedig erbyn unrhyw ddyddiad cau, dylai'r cyflwyniad gynnwys rhif fersiwn newydd sy'n dangos bod y dDCO a gyflwynwyd yn fersiwn ddiwygiedig. Mae'n rhaid i dDCOau diwygiedig a gyflwynir gan yr Ymgeisydd hefyd gynnwys:

- a. fersiynau a gyflwynwyd yn Microsoft Word. Mae'n rhaid i'r fersiwn a gyflwynir erbyn Dyddiad Cau 7 fod wedi cael ei dilysu yn erbyn y templed Offeryn Statudol;
- b. Memorandwm Esboniadol diwygiedig; a
- c. rhestr newidiadau wedi'i chydgrynhoi sy'n rhestru'r holl newidiadau i'r dDCO ers fersiwn y cais, pryd (gan gynnwys rhif y fersiwn) a pham y cyflwynwyd pob newid.

Pan fydd yr Ymgeisydd yn cyflwyno BoR diwygiedig erbyn unrhyw ddyddiad cau, dylai'r cyflwyniad gynnwys rhif fersiwn newydd sy'n dangos bod y BoR a gyflwynwyd yn fersiwn ddiwygiedig. Mae'r ExA yn gofyn i dabl newidiadau wedi'i gydgrynhoi gael ei gyflwyno hefyd sy'n rhestru'r holl newidiadau i'r BoR ers fersiwn y cais, pryd (gan gynnwys rhif y fersiwn) a pham y cyflwynwyd pob newid.

9. Datganiadau i Gloi

Hoffai'r ExA wahodd yr Ymgeisydd ac IPau i gyflwyno datganiadau i gloi erbyn **Dyddiad Cau 7, sef dydd Mawrth 14 Ionawr 2025**. Dylai Datganiadau i Gloi ychwanegu at Dracwyr Cynnydd yr Archwiliad a dylent gyflwyno cofnod cryno o safbwynt y parti cyn diwedd yr Archwiliad, yn benodol lle mae'n credu bod meysydd anghytundeb yn parhau. Dylai Datganiadau i Gloi grynhai safbwyntiau'r partïon ar ddiwedd yr Archwiliad a rhaid iddynt beidio â chyflwyno unrhyw dystiolaeth newydd.

10. Cyflwyniadau Ychwanegol

Yn ogystal â'r dogfennau a gyflwynwyd erbyn **Dyddiad Cau Gweithdrefnol A**, mae'r ExA wedi arfer ei ddisgresiwn ac wedi gwneud Penderfyniad Gweithdrefnol i dderbyn y Cyflwyniadau Ychwanegol canlynol:

- Ymateb yr Ymgeisydd i gyngor a51 (Ebrill 2024) [AS-002], sy'n cynnwys:
 - Canllaw i'r Cais wedi'i Ddiweddarau [AS-001]
 - Cynllun Gwaith wedi'i Ddiweddarau – Ar y Tir [AS-003]
 - Cynllun Gwaith wedi'i Ddiweddarau – Alltraeth a Rhynglanw [AS-004]
 - Cynllun Tir wedi'i Ddiweddarau (Ar y Tir) [AS-005]
 - Cynllun Tir y Goron wedi'i Ddiweddarau (Ar y Tir) [AS-006]

- Cynllun Tir Categori Arbennig wedi'i Ddiweddarau [AS-007]
- Cynllun Gwaith Stryd a Mynediad at Waith wedi'i Ddiweddarau [AS-008]
- Cynllun Cau Hawliau Tramwy Cyhoeddus Dros Dro wedi'i Ddiweddarau [AS-009]
- Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft wedi'i Ddiweddarau (Glân) [AS-010]
- Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft wedi'i Ddiweddarau (Dangos Newidiadau) [AS-011]
- Adroddiad Dilysu Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft [AS-012]
- Memorandwm Esboniadol wedi'i Ddiweddarau (Glân) [AS-013]
- Memorandwm Esboniadol wedi'i Ddiweddarau (Dangos Newidiadau) [AS-014]
- Llyfr Cyfeirio wedi'i Ddiweddarau [AS-015]
- Datganiad Amgylcheddol Cyfrol 1, Pennod 4: Dethol Safle ac Ystyried Dewisiadau Amgen wedi'i Ddiweddarau [AS-016]
- Cyflwyniad Ychwanegol dyddiedig 15 Ebrill 2024 gan Gyngor Westmorland a Furness [AS-017]
- Cyflwyniad Ychwanegol dyddiedig 24 Ebrill 2024 gan yr Awdurdod Glo [AS-018]

Mae ymateb yr Ymgeisydd i'r cyngor a51 [AS-002] yn nodi rhai cywiriadau, esboniadau a diwygiadau i ddogfennau'r cais sy'n mynd rhagddynt ond nad ydynt wedi'u cyflwyno eto. Mae hyn yn cynnwys diweddariadau i'r Datganiad Cynllunio i adlewyrchu cynnwys Polisi Cynllunio Cymru 12, ffigurau diwygiedig yn y Datganiad Amgylcheddol i fynd i'r afael â materion cysondeb a mân wallau eraill yn y Datganiad Amgylcheddol.

Mae'r ExA yn gofyn i unrhyw ddiweddariadau a dogfennau rhestrau gwallau sy'n weddill gael eu cyflwyno erbyn y Dyddiad Cau Gweithdrefnol, yn hytrach nag aros am Ddyddiad Cau 1 yr Archwiliad. Bydd hyn yn galluogi'r holl bartïon i ystyried y dogfennau wedi'u diweddarau yn eu cyflwyniadau (gan gynnwys Sylwadau Ysgrifenedig ac Adroddiadau ar yr Effaith Leol) a ddisgwylir erbyn Dyddiad Cau 1 ac yn y gwrandawiadau a drefnwyd yn syth ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol.

11. Rhestr tracio rhwymedigaethau cynllunio a chytundebau ochr masnachol

Mae Amserlen ddrafft yr Archwiliad yn gofyn i'r Ymgeisydd gyflwyno rhestr dracio sy'n mynegeo'r holl ddogfennau canlynol y mae wedi'u cynhyrchu neu'n bwriadu eu cynhyrchu:

a. unrhyw rwymedigaethau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) neu ddarpariaethau deddfwriaethol eraill sy'n

berthnasol i gynllunio, gan nodi'r pŵer deddfwriaethol ar gyfer y rhwymedigaeth, ei phwnc/pynciau a pham y mae'n angenrheidiol, p'un a fyddai'r rhwymedigaeth yn unochrog, yn ddwyochrog neu'n amlochrog, y Partïon â Buddiant neu'r unigolion eraill sy'n gysylltiedig a ph'un a ystyrir bod canlyniad cytundeb o'r fath yn debygol o ddileu'r angen am unrhyw ddarpariaethau yn y DCO drafft, dileu'r angen am un neu fwy o Ddatganiadau Tir Cyffredin neu arwain at dynnu un neu fwy o Sylwadau Perthnasol a/ neu Ysgrifenedig yn ôl; ac

b. unrhyw gytundebau ochr masnachol neu gontractau a gynigir rhwng yr Ymgeisydd a Phartïon â Buddiant neu unigolion eraill, gan nodi'r pwnc/pynciau a'u diben, y Partïon â Buddiant neu'r unigolion eraill sy'n gysylltiedig a ph'un a ystyrir bod canlyniad cytundeb o'r fath yn debygol o ddileu'r angen am un neu fwy o Ddatganiadau Tir Cyffredin neu arwain at dynnu un neu fwy o Sylwadau Perthnasol a/neu Ysgrifenedig yn ôl.

Erbyn Dyddiad Cau 7, gofynnir i'r Ymgeisydd ddiweddarau'r rhestr dracio a nodi pa newidiadau (os oes rhai) sydd wedi digwydd ers y fersiwn flaenorol.

Os yw'r Ymgeisydd eisiau i'r ExA roi pwys i gytundebau ochr masnachol, mae'n rhaid darparu tystiolaeth bod y rhain wedi cael eu cwblhau, ynghyd â rhestr o'r materion y darparwyd ar eu cyfer ac y cydsyniwyd iddynt gan holl lofnodwyr pob cytundeb, erbyn Dyddiad Cau 7.

Os yw'r Ymgeisydd eisiau i'r ExA roi pwys i rwymedigaethau cynllunio, mae'n rhaid darparu copïau llofnodedig erbyn Dyddiad Cau 7 ynghyd â datganiad cryno sy'n nodi sut mae pob rhwymedigaeth yn mynd i'r afael â'r profion yn Rheoliad 122(2) Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 a pharagraff 57 y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol.

Argaeledd Dogfennau'r Archwiliad

Mae dogfennau'r cais a Sylwadau Perthnasol ar gael ar [dudalen we'r prosiect](#).

Bydd yr holl ddogfennau eraill a gyflwynir yn ystod yr Archwiliad yn cael eu cyhoeddi hefyd o dan y [tab Dogfennau](#) ar dudalen we'r prosiect.

Llyfrgell yr Archwiliad

Er hwylustod llywio, cyfeiriwch at [Llyfrgell yr Archwiliad](#) y gellir ei chyrraedd trwy glicio ar y botwm glas o dan y tab Dogfennau. Mae Llyfrgell yr Archwiliad yn cael ei diweddarau'n rheolaidd drwy gydol yr Archwiliad.

Mae Llyfrgell yr archwiliad yn cofnodi ac yn darparu hyperddolen i:

- holl ddogfennau'r cais;
- pob sylw a wnaed i'r Archwiliad; a
- phob Penderfyniad Gweithdrefnol a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio.

Rhoddir rhif cyfeirnod unigryw i bob dogfen a fydd yn aros yr un peth ar hyd cyfnod yr Archwiliad. **Dyfynnwch y rhif cyfeirnod unigryw o Lyfrgell yr Archwiliad wrth gyfeirio at unrhyw rai o Ddogfennau'r Archwiliad mewn unrhyw gyflwyniadau a wnewch yn y dyfodol.**

Lleoliadau adneuo electronig

Gellir gweld dogfennau'n electronig, yn rhad ac am ddim, yn y lleoliadau adneuo electronig a restrir yn y tabl isod. Sylwch efallai y bydd angen i chi ddod â phrawf adnabod gyda chi a chofrestru fel aelod i ddefnyddio cyfrifiadur yn un o'r lleoliadau hyn.

Fe allai'r oriau agor ac argaeledd technoleg gwybodaeth a amlinellir yn y tabl isod newid. Gwiriwch yr amgylchiadau cyfredol gyda'r lleoliadau perthnasol cyn mynd yno.

Awdurdod lleol	Lleoliad/cyfeiriad	Oriau agor	Costau argraffu
Cyngor Sir Ynys Môn	Llyfrgell Amlwch Lôn Parys Amlwch Ynys Môn LL68 9EA	Dydd Sul i ddydd Llun: AR GAU Dydd Mawrth: 9:30am-12:30pm, 2pm-5pm Dydd Mercher: 9:30am-12:30pm Dydd Iau: 2pm-7pm	A4: 15c A3: 30c

Atodiad G

		Dydd Gwener: 9:30am-12:30pm Dydd Sadwrn: 9:30am-12:30pm	
Awdurdod lleol	Lleoliad/cyfeiriad	Oriau agor	Costau argraffu
Cyngor Sir Ddinbych	Llyfrgell y Rhyl Stryd yr Eglwys Y Rhyl LL18 3AA	Dydd Llun: 9:30am-6pm Dydd Mawrth i ddydd Gwener: 9:30am-5pm Dydd Sadwrn: 9:30am-12:30pm Dydd Sul: AR GAU	A4: 60c
Awdurdod lleol	Lleoliad/cyfeiriad	Oriau agor	Costau argraffu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Llyfrgell Llandudno Stryd Mostyn Llandudno LL30 2RP	Dydd Llun i ddydd Mercher: 9am-5:30pm Dydd Iau: 10am-7pm Dydd Gwener: 9am-5:30pm Dydd Sadwrn: 9:30am-3pm Dydd Sul: AR GAU	A4: 70c A3: £1.40
Awdurdod lleol	Lleoliad/cyfeiriad	Oriau agor	Costau argraffu
Cyngor Gwynedd	Llyfrgell Gyhoeddus Bangor Ffordd Gwynedd Bangor LL57 1DT	Dydd Llun i ddydd Mawrth: 9:30am-6:30pm Dydd Mercher i ddydd Gwener: 9:30am-5pm Dydd Sadwrn: 9:30am-1pm Dydd Sul: AR GAU	A4: 60c A3: £1.20

Awdurdod lleol	Lleoliad/cyfeiriad	Oriau agor	Costau argraffu
Cyngor Bwrdeistref Douglas	Llyfrgell Henry Bloom Noble 8 Duke Street Douglas Ynys Manaw IM1 2AY	Dydd Llun i ddydd Mercher: 8:30am-5pm Dydd Iau: 10am-7pm Dydd Gwener: 8:30am-5pm Dydd Sadwrn: 9am-4pm Dydd Sul: AR GAU	A4: 50c
Awdurdod lleol	Lleoliad/cyfeiriad	Oriau agor	Costau argraffu
Comisiynwyr Tref Ramsey	Llyfrgell Tref Ramsey Parliament Square Ramsey Ynys Manaw IM8 1RT	Dydd Llun i ddydd Iau: 9am-4:30pm Dydd Gwener: 9am-4pm Dydd Sadwrn: 9am-4:30pm Dydd Sul: AR GAU	A4: 10c A3: 15c

Gwybodaeth am gyflwyno erbyn dyddiadau cau'r Archwiliad

Chi sydd i ddewis sut i wneud eich cyflwyniad i'r Arolygiaeth Gynllunio. Gallwch ddewis gwneud hynny trwy [e-bost](#) neu'r post, cyn belled ag y bo'n cyrraedd erbyn y dyddiad cau perthnasol. Mae'r rhan fwyaf o Bartion â Buddiant (IPau) yn gwneud eu cyflwyniadau trwy [e-bost](#). Darperir gwybodaeth gyswllt ar dudalen berthnasol y prosiect ar y wefan Seilwaith Cenedlaethol ac ym Mhenderfyniad Gweithdrefnol yr Awdurdod Archwilio (y llythyr Rheol 6). Os ydych yn gwneud cyflwyniad ar ran unigolyn arall neu sefydliad, ac nid oes gennych eich rhif cyfeirnod unigryw eich hun, dylech roi rhif cyfeirnod unigryw'r unigolyn neu'r sefydliad rydych yn ei gynrychioli. Os nad ydych yn IP cofrestredig, gall yr ExA benderfynu derbyn eich cyflwyniad neu beidio yn ôl ei ddisgresiwn.

Cyhoeddir cyflwyniadau ar dudalen we'r prosiect cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y Dyddiad Cau perthnasol. I gael rhagor o wybodaeth am gyhoeddi cyflwyniadau, gweler ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#). Gallwch gyflwyno dogfen (lanlwytho ffeil), gwneud sylw testun neu'r ddau. Gellir lanlwytho sawl ffeil ar gyfer pob cyflwyniad unigol. Dylai atodiadau electronig gael eu labelu'n glir gyda theitl y pwnc ac ni ddylent fod yn fwy na 50MB.

Mae'n rhaid i gyflwyniadau beidio â chynnwys hyperddolenni i ddogfennau / tystiolaeth a gynhelir ar wefan trydydd parti, er enghraifft, adroddiadau technegol, erthyglau yn y cyfryngau ac ati. Gweler [Nodyn Cyngor 8.4 yr Arolygiaeth Gynllunio: Yr Archwiliad](#) i gael rhagor o wybodaeth am wneud cyflwyniadau ysgrifenedig.

Mae'n rhaid i bob cyflwyniad gael ei wneud mewn fformat y gellir ei weld yn llawn ar dudalen y prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol. Dylid cyflwyno crynodeb gydag unrhyw gyflwyniadau sy'n fwy na 1500 o eiriau; ni ddylai'r crynodeb hwn fod yn fwy na 10% o'r testun gwreiddiol. Os byddwch yn cyflwyno trwy [e-bost](#), dylech fewnosod teitl y dyddiad cau perthnasol yn unol ag Amserlen yr Archwiliad yn y 'llinell bwnc' – bydd hyn yn helpu Tîm yr Achos i wybod beth mae'ch cyflwyniad yn ymwneud ag ef. Os nad ydych yn credu bod eich cyflwyniad yn cyfateb i ddisgrifiad unrhyw un o benawdau'r dyddiadau cau, rhowch 'Arall' yn llinell bwnc eich neges e-bost.

Os byddwch yn cael unrhyw broblemau wrth gyflwyno dogfen erbyn dyddiad cau, cysylltwch â Thîm yr Achos gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn a byddant yn eich cynorthwyo.

National Infrastructure Planning
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Customer Services: 0303 444 5000

email: monaoffshorewindproject@planninginspectorate.gov.uk

All Interested Parties, Statutory Parties and
any Other Person invited to the Preliminary
Meeting

Your Ref:

Our Ref: EN010137

Date: 7 June 2024

Dear Sir/ Madam

**Planning Act 2008 – Section 88 and 89 and The Infrastructure Planning
(Examination Procedure) Rules 2010 – Rules 4, 6 and 9 and 13**

**Application by Mona Offshore Wind Limited for an Order Granting
Development Consent for the Mona Offshore Wind Farm**

**Appointment of the Examining Authority, invitation to the Preliminary Meeting,
draft Examination Timetable, Procedural Decisions and notification of hearings**

My name is Caroline Jones and I have been appointed by the Secretary of State as the lead member of the Examining Authority (ExA) to carry out an Examination of the above application. The other members of the ExA are Andrew Harwood, Graham Hobbins, Jessica Powis and Jason Rowlands. A copy of the appointment notice can be viewed [here](#).

